"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] MEDI, 1884. [RHIF 37.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Yr etholedigaeth a ddysgir gan Paul	193
Eglwys y Dyfodol	196
Ymddiriedaf yn Nuw	201
Y Golygydd ac Ap Ioan	202
Y Parousia yn yr Actau	204
Christadelphiaeth	208
Ein Geneth Gu	210
Mr. John Jones, Gellifaharen, Llandyssul	211
Y Beibl	214
Manion a Hanesion	214
Marwgofion	216

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

Cyfres Newydd.] MEDI, 1884. [Rhif 37.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR ETHOLEDIGAETH A DDYSGIR GAN PAUL.*

O'r holl athrawiaethau yn dal perthynas â dyfodol dyn, nid oes yr un fe ddichon wedi cael argraff ddyfnach ar feddyliau rhai dosparthiadau o bobl nâ'r athrawiaeth sydd yn myned dan yr enw o etholedigaeth, yr hon sydd yn ffurfio rhan bwysig a dylanwadol yn mhrif gredöau poblogaidd y byd Cristionogol; ac nid oes yr un, debygwn, sydd wedi ymylu bywyd â thristwch i'r graddau y mae hon. "Och fi," meddai hen wr yn mhlwyf Llanarth fwy nâ deng mlynedd a thrugain yn ol, wrth weled ych yn gorwedd dan law y cigydd, "nad allem farw fel yr anifail mud yna, heb yr un holi byth mwy am danom!" Ac "Och fi" oedd prif sain bywyd Cowper, y bardd Seisnig enwog, yr hwn ni fynai wneuthur niwed i'r ysgyfarnog na'r un creadur arall; ac "Och fi" yr athrawiaeth hon oedd wrth wraidd prudd-der enaid Dr. Channing yn blentyn gyda'i dad, ar ol gwrando un o hen bregethwyr Calfinaidd y dyddiau gynt; ac nid yw y rhai hyn ond enghreifftiau o'r hyn y mae miloedd wedi ei deimlo o herwydd crediniaeth yn yr athrawiaeth hon. I'r cyfryw nid yw yn bosibl fod yr efengyl wedi bod yn newydd da. Nid oedd yn newydd da i'r hen wr, nac i Cowper, nac i Channing, ar yr adeg grybwylledig, er i Channing yn ddiweddarach ddyfod i oleuni efengyl ddysgleiriach.

Credir yr athrawiaeth ar y sail dybiedig fod Paul wedi ei dysgu. Nid yw yn ddigon fod rheswm yn gwrthdystio yn ei herbyn, fod cydwybod yn dywedyd "Na" wrthi, fod holl ranau goreu ein natur a'n syniadau goreu am Dduw fel Tad trugarog a graslawn, fel bod sydd, yn anfeidroldeb ei gariad a'i ewyllys da, yn gwneuthur y goreu ar ein rhan, yn gwbl groes iddi. Gallaf ddychymygu clywed Leigh Hunt yn

* Darllener Rhufeiniaid viii. 80; ix. 1—24; xi. 28; Eph. i. 5, 11; 2 Tim. i. 9; Esponiad Livermore, ac "Orthodoxy," &c., Dr. J. Freeman Clarke.

dywedyd am dani, yn debyg fel y dywedodd am athrawiaeth arall yn perthyn yn agos iddi, "Pe deuai angel o'r nef i ddywedyd wrthyf am gredu ynddi, ni wnawn, oblegyd byddai yn fwy teilwng i mi gredu yr angel yn dwyllwr nâ Duw yn anghenfil; ac yr ydym yn gwneuthur Duw yn anghenfil wrth gyssylltu y fath athrawiaeth ag ef, er nad ydym yn meddu digon o wroldeb i feddwl hyny." Nid ydym yn parchu Paul wrth dderbyn athrawiaeth ar sail ei addysg ef, pan gawn y cyfryw athrawiaeth yn croesi elfenau cyntaf athroniaeth foesol. Tybir, fodd bynag, fod yn yr athrawiaeth hon athroniaeth seiliedig ar Ysgrythyr, ar natur, a deddfau tragwyddol yr Hollalluog, a bod John Calfin wedi egluro a phrofi yr athrawiaeth yn y fath fodd nas gellir ei gwrthdroi yn un rhan o honi.

Rhywbeth tebyg i hyn ydyw, er fod amryw rywogaethau o honi:—Fod Duw, er pob tragwyddoldeb, yn ol anfeidroldeb ei ddoethineb a'i ewyllys da, wedi ordeinio pob peth i gymmeryd lle, ac o'i gariad a'i rad ras, yn annybynol ar ffydd neu weithredoedd da, wedi ethol rhai i wynfyd, a rhai i wae—y miloedd i wynfyd tragwyddol, a'r miliynau i wae tragwyddol, a'i fod yn cael ei ogoniant yn namnedigaeth y colledigion yn ogystal ag yn nghadwedigaeth yr etholedigion.

Ewyllys Duw felly ydyw yr oll—yr hwn sydd yn achub rhai, ac yn damnio ereill yn gwbl annybynol ar reswm neu gyfiawnder, haeddiant neu garitor, y peth ydynt neu y peth a wnant. Nid yw yn gwobrwyo rhinwedd nac yn cospi pechod, ond gwasgara wynfydau y nef a gwaeau uffern yn debyg fel y mae gormesdeyrn dwyreiniol yn gweinyddu ei fflangell, neu yn cyfranu o gynwys ei gôd heb reswm, ond yn unig i foddio ei fympwy. A dyma'r Bod y mae Calfiniaeth yn ei osod ar orsedd y bydysawd yn lle y Bod hwnw a ddarlunir yn yr efengyl fel "Ein Tad."

Ond a oes sail gyfiawn i'r fath athrawiaeth yn addysgiadau Paul? Mae yr athrawiaeth wedi ei hadeiladu ar ei eiriau, ond nis gallaf gredu fod y geiriau erioed wedi eu bwriadu i gynnwys yr athrawiaeth. Gwir fod Paul yn son am etholedigaeth, ond nis gallaf gredu mai etholedigaeth i'r gwynfyd a'r gwae tragwyddol y sonia John Calfin am dani yw. Nid Rheidrwydd a Gwrthreidrwydd chwaith yw pwnc Paul, ac nid y penderfyniadau a basiwyd yn y Cynghor Boreu draw yn nhragwyddoldeb ydyw. A glywodd Paul son erioed am y Cynghor Boreu? Mae yn amheus genyf. Nid yw fod Jacob wedi ei ethol yn golygu dim yn nghylch ei ddyogelwch nefol, na dim am annyogelwch Esau. Barna rhai fod Esau, mewn ystyr foesol, yn llawn cystal â Jacob, os nid gwell. Nid yw fod Isaac yn cael ei ddewis o flaen Ismael yn y byd hwn, er fod y ddau yn blant i Abraham, yn penderfynu dim yn nghylch eu tynghed dragwyddol mewn byd arall. Os oedd yr Iuddewon yn bobl ddewisol neu etholedig, nid etholedigaeth i'r nefoedd yw, ond etholedigaeth ddaearol, dymhorol—etholedigaeth i fanteision neu ragorfreintiau ar y ddaear yw; a'r hyn sydd yn penderfynu yr etholedigaeth yn mhob amgylchiad yw, y cymhwysderau at y gorchwyl neu y cylch yr etholir iddo. Mae yr etholedigaeth i grefydd yn dra "chyffelyb i'r etholedigaeth i gelfyddyd, i oruchwylion bywyd, llenyddiaeth, hin-

sawdd dosparth bywyd, lliw, cyfnod y byd, cyflwr cymdeithas, i'r rhai y mae y person yn cael ei eni. Yr Hwn a arfaethodd Moses i fod yn arweinydd plant Israel, a Pharaoh yn Frenin yr Aifft, Hwnw a arfaethodd Raphael i fod yn arlunydd mawr, Goethe yn fardd, a Channing yn dduwinydd." Etholir personau a chenedloedd i gylch neillduol a gwaith neillduol, ond ar y ddaear. Etholwyd y Rhufeiniaid i berffeithio deddfwriaeth, y Groegwyr i ddadblygu y meddylddrych o brydferthwch, a'r Iuddewon y meddylddrych crefyddol. Mae yn amlwg fod Duw wedi bwriadu Columbus i ddarganfod America, a Shakespeare i gyfansoddi ei chwareugerddi, ac ni allasai y naill gyflawni gwaith y llall. Fodd bynag, nid yw yr etholedigaeth hon o honi ei hun yn sicrhau nefoedd.

Mae Duw mewn ystyr yn ethol pob dyn, ac yn ethol pob dyn at waith. Mae i bob un ei roddion a'i gyfleusderau oddiwrth Dduw; rhai fel hyn a rhai fel arall. Os yn ffyddlon, fe wel pob un ei waith. Nid yw i bob dyn gyflawnu gwaith mawr. Ni roddir gwaith cawr i gorach *(dwarf)*; ond i bob un y gwaith a'r gorchwyl y mae wedi ei gymmhwyso iddo, ac ni ddysgwylir oddiwrth neb ond yr hyn a all—y goreu y mae ei gymmhwysderau a'i gyfleusderau yn ei ganiatau iddo.

Y mae ystyr, feallai, yn yr hwn y mae yr etholedigaeth yn ddiammodol, ac mai nid o herwydd un haeddiant yn y dyn y dewisir un ac y gwrthodir y llall. Dywed Freeman Clarke fod caritor dyn yn dybynu ar dri pheth—ei gyfansoddiad, ei addysg, a'i ryddid; y cyfansoddiad a dderbyniodd ar ei enedigaeth, y dylanwadau aneirif trwy y rhai y mae wedi ei ddysgu, a'r hyn y mae wedi ei wneuthur trwy bob moment o'i fywyd. Yn awr, y mae y ddau beth cyntaf—y ddau *factor* cyntaf allan o'i afael. Nis gall y Chinead genedigol byth ddyfod yn Ffrancwr genedigol, na Ffrancwr genedigol byth ddyfod yn Gymro genedigol; a rhaid yw fod y dyn a ddygir i fyny yn mhlith yr Hottentottiaid yn wahanol iawn i'r un a ddygir i fyny yn Rhydychain neu Gaergrawnt; ond nid yw bod yn Chinead, nac yn Ffrancwr, nac yn Hottentottiad, nac yn Gymro, nac yn fyfyriwr yn Rhydychain neu Gaergrawnt, yn un o anhebgorion nefoedd.

Gellir cymmharu dyn i lywydd llong; nid yw iddo ef benderfynu pa fath long fydd ganddo, na pha fath dywydd a gyferfydd; ond gall benderfynu pa un ai i'r de ynte i'r aswy y try efe y llyw. Dyma ydyw dyledswydd y dyn—edrych ar y *chart* a'r cwmpawd, a chyfeirio ei long goreu gallo, yn ol yr amgylchiadau, at y porthladd a ddymuna.

Amgylchir ewyllys dyn gan Ragluniaeth Ddwyfol, a holl ddyledswydd dyn yw gwneuthur iawn ddefnydd o'r manteision a'r cyfleusderau a ddyry Duw iddo. Ni fydd Duw yn ei ethol i'r nefoedd ar gyfrif y corff y mae wedi ei gael, nac ar gyfrif y wlad y mae wedi ei eni ynddi; ond yn unig ar gyfrif y sut y mae yn defnyddio ei gyfleusderau. Mae pob dyn yn cael ei long i hwylio mordaith bywyd, ond nid yw ei nefoedd yn dybynu gymmaint ar y llong y mae wedi ei ethol iddi, nac ar y moroedd na'r tywydd a ddeuant i'w ran, ond ar y modd y mae efe yn hwylio ei long dros y moroedd a thrwy y tywydd; mewn gair, ar ba

fath forwr yw. Mae y nefoedd i'r sawl sydd yn ei haeddu—y sawl sydd yn gweithio yn iawn am dani. "Gweithiwch allan eich iachawdwriaeth eich hunain," &c.

DAVUS SUM.

EGLWYS Y DYFODOL.

Papyr a ddarllenwyd yn Nghyfarfod Agoriadol Capel y Graig, Llandyssul, Gorphenaf y 4ydd, 1884, *gan y Parch. T. Lloyd Jones, Liverpool.*

AM yn agos i 200 mlynedd mae nifer fechan o eglwysi Cristionogol yn ein plith wedi sefyll i fyny dros ryddid cydwybod a rhyddid meddyliol mewn pethau crefyddol yn ogystal ag mewn pethau politicaidd a chymdeithasol. O holl eglwysi cred, am a wn i, ein cymmundeb ni, fel Undodiaid, yn unig sydd yn dal mai egwyddor sylfaenol ein ffydd yw rhyddid i feddwl a barnu pynciau crefyddol yn ngolwg rheswm, dealldwriaeth, a chydwybod. Nid ydym yn dysgu unrhyw gredo neu athrawiaeth neillduol fel unig foddion iachawdwriaeth, nac yn gosod allan unrhyw ddatguddiad goruwchnaturiol yn cael ei dystio gan wyrthiau a phroffwydoliaethau, fel yr unig sylfaen i fywyd ysprydol. Ond yr ydym yn ceisio myned y tu hwnt i'r pethau hyn oll at anhebgorion a gwreiddyn crefydd, ac yn dal mai sail ffydd ydyw, nid oedran y traddodiadau, nid nifer yr erthyglau, nid hyd a lled y gredo, ond y dymher addfwyn, y natur faddeugar, y galon dyner, y bywyd pur a dihalog—mewn gair, cariad Duw yn yr enaid oddifewn yn blodeuo allan mewn cymmeriadau hunanaberthol dros wirionedd a chyfiawnder yn mhob llwyth, iaith, a chenedl, dan y nef.

O'r ochr arall, y mae yr holl sectau Cristionogol, o Eglwys Gadeiriol Rhufain ei hun i lawr at y "*Bethel*" mwyaf dinod yn nghesail mynyddoedd cribog Cymru, wedi amgau y gorlan Gristionogol ag erthyglau ffydd, credöau, seremoniau, a thraddodiadau; ac oddiar amser Galileo hyd ddyddiau Lyell a Darwin a Tyndall, ysgymunir rhydd-ymofynwyr os na allant danysgrifio namyn un deugain erthygl, neu bump pwnc Calfin, mwy neu lai; nodir y neb a feiddiant wadu eu Shibboleth hwy â nôd y bwystfil yn atheistiaid ac inffideliaid, heb obaith ganddynt, ac heb Dduw yn y byd. Ond os nad wyf yn camsynied yn ddirfawr, y mae arwyddion amser gwell gerllaw. Y mae gwawl dydd mwy ysplenydd yn agor yn y Dwyrain—"Cain foreu tangnefedd ein Duw;" erledigaeth o herwydd opiniynau crefyddol yn diflanu fel niwl y boreu o flaen tês y dydd. Fe wel y llygadgraff ar dŵr ei wyliadwriaeth lawer hen arch o gyfammodau ffydd wedi eu troi naill ochr i Ararat i orphwyso, ac fe glyw y clust gwrandawgar sŵn alaethus yr hen ystyllod sychion yn hollti, a'r *joints* yn ymddattod, ac fe gydnabydda hyd yn oed y mwyaf uniawngred weithiau fod yr hen lestri yn eu cyflwr a'u cyfansoddiad cyntefig yn rhy fratiog, bellach, i wynebu nerth aruthrol tonau hanesyddiaeth a datguddiadau diweddaraf gwyddoniaeth. O ganlyniad, y mae cynnhwrf a therfysg dirfawr yn y gwersyll, fel pe

byddai rhyw flaidd rheibus yn ymosod ar y praidd y mae y bugeiliaid yn crochlefain am gymhorth i erlid ymaith y bwystfil annghrediniaeth ag sydd yn goddiweddyd yr oes o herwydd darganfyddiadau gwyddoniaeth; Lyell yn dweyd fod daeareg yn dysgu fod y belen ddaearol yn gannoedd o filoedd, os nid yn filoedd o filoedd o flynyddau o oedran, ac felly, yngwadu Ysprydoliaeth lythyrenol y Beibl a'r cread Moesenaidd (*Mosaic Csmogony*); Darwin yn dysgu dadblygiad dyn, a'i esgyniad i fyny o ytâd wyllt ac anwaraidd trwy yr oesau at fwy-fwy perffeithrwydd, ac yna, yn taflu dros y bwrdd athrawiaeth pechod gwreiddiol a chwymp dynoliaeth yn Adda; Tyndall yn dysgu fod cyfreithiau natur yn annhoradwy yr un fath heddyw ag erioed, ac felly, yn gwadu y gwyrthiau; ac y mae yr eglwysi oll mewn braw a dychryn gan y credant fod y bobl i gael eu llyncu i fyny gan anffyddiaeth ac anfoesoldeb. Hereticiaid yn ngolwg eglwysi yr oesoedd sydd *wedi myned*, neu, o leiaf, mi a obeithiaf, *sydd yn myned* heibio, oeddynt y rhai a wadent y Drindod, Duwdod Crist, Iawn pen Calfaria, Ysprydoliaeth lythyrenol y Beibl, cyflawniadau llythyrenol y proffwydoliaethau, etholedigaeth ddiammodol, cospedigaeth dragywyddol pechaduriaid a hereticiaid; ond os ysgymunir neb o eglwys lân gatholig y dyfodol, byddant y cyfryw a fyddant am gau drws y gorlan yn erbyn dynion dysgedig a phroffwydi eu hoes o herwydd eu hopiniynau damcaniaethol (*speculative*) ar y pynciau uchod a'u cyffelyb, ac a haerant eu bod wedi cyrhaedd y gareg filldir olaf ar ffordd gwybodaeth a datguddiadau Duw. Dichon, yn wir, i lawer blwyddyn etto basio cyn y bydd i ysgerbydau esgyrn sychion y credöau ddiflanu; er hyny, y mae yspryd yr oes (Zeitgeist) ac arwyddion yr amserau o'n tu, ac y mae gobaith diysgog yn ein hannog i lynu wrth ein hegwyddorion, ac i lafurio am yr amser pan y bydd i syniadau rhagorach am Dduw a dyn ffynu, ac y bydd i holl ddynolryw goleddu gwirionedd canolbwyntiol Cristionogaeth—Tadoldeb Duw, a brawdoldeb a dwyfoldeb dyn. Yn y cyfamser ein dyledswydd yw bod yn gadarn yn ein hargyhoeddiadau, ac yn ffyddlon i'n cyfleusderau, yn dal yn wrol at y gwirionedd fel yr ydym ni yn ei amgyffred, a'n meddyliau yn agored i bob goleuni gwell, a'i draethu yn ddiofn mewn cariad tuag at ereill a fyddont yn gwahaniaethu oddiwrthym, gan ddysgu y naill gan y llall, ac oll ddysgu gan y Meistr a chan Dduw. Dichon y bydd yn rhaid i ni ymladd ambell i frwydr danllyd, ond nis dylai hyn wangaloni milwyr y groes a ddynoethant gleddyf yr Yspryd dros wirionedd a chyfiawnder, dros ryddid meddyliol ac Ysprydol, ac yn achos sanctaidd dynoliaeth. A dichon hefyd y bydd i rai o honoch chwi sydd yma wedi dyoddef pwys a gwres y dydd gwympo ar y maes tra y mae trwst a therfysg y frwydr yn swnio yn eich clustiau, cyn i'r faner fuddugoliaethus gael ei gosod ar amddiffynfa ddiweddaf y gelyn; etto, ni chyll yr un y wobr fwyaf dderbyniol a gwerthfawr yn ngolwg y dewr a'r hunanymwadol. Tra yn teithio i lawr tua dyffryn glyn y cysgodau, canfyddwch â llygad ffydd y dydd gwell yn gwawrio, mwy o ryddid a brawdgarwch rhwng dyn a dyn i'r oes fo yn canlyn o herwydd eich ymdrech chwi.

"A phan ddelo amser gorphwys lludded daear drosodd oll,"

pan y bydd teyrnasiad anwybodaeth a chulni a rhagfarn wedi diflanu, bydd i'ch disgynyddion eich cadw mewn coffadwriaeth hoff a melus, ac efallai, ar rhyw hwyrddydd, "Rhwng y Llan a'r hen geubreni," ymgasglant oddiamgylch eich tawel feddau, ac er fod y "glâs dwmpathau" heb "feini mynor i'w coffhâu," heb hyd yn oed

Yr oed a'r enw a'r dydd bu farw, na charreg arw, lwyd, ddirân,

bydd i chwi goffadwriaeth mwy parhaol nâ'r mynor, nid yn unig ar "goflyfrau'r byd a ddaw," ond hefyd wedi ei gerfio megys ag ysgrifbin o ddur ar lechau eu calonau diolchgar, a chlywir pereiddiach canmoliaeth a melusach miwsig nag "eurgainc bywiol organ" yn disgyn i lawr megys oddiar delynau'r nef, pan y dywedant gydag ochenaid fer a chwyn," "Yma y gorwedd un milwr da i Iesu Grist—un a wnaeth ei ran yn ei fywyd dros ryddid a lles dynoliaeth; safodd yn ddewr a di-ildio dros y gwir pan oedd ei gyfeillion ond nemawr iawn, ac un o nifer dysgyblion ffyddlon y Meistr pan ddywedodd, 'Er mwyn hyn y'm ganed, ac er mwyn hyn y daethum i'r byd, fel y tystiolaethwn i'r gwirionedd'" (Ioan xviii. 37).

Y mae "pren y bywyd" rhyddid crefyddol ac ysprydol, dan gangau ar hwn yr ydym ni heddyw yn llechu mor ddiofn, wedi ei feithrin gan ddyoddefiadau ac aberthau y tadau, ac wedi ei ddyfrhau gan ddagrau a gwaed eu calonau dewrion.

"Gwelwn ol yr hen ffyddloniaid ar hyd llwybrau diriaid iawn."

Gwnaethant hwy eu rhan yn anrhydeddus, ac yr ydym ni yn medi o ffrwyth eu llafur. Yr ydym wedi etifeddu ymddiriedaeth werthfawr; ond dylem gofio nad yw y trysor drud hwn—Cristionogaeth rydd—y fraint anmhrisiadwy o addoli Duw yn ol ein cydwybodau mewn llonyddwch a hedd—wedi ei drosglwyddo er mwyn i ni yn *unig* ei fwynhau, ond *hefyd*, er mwyn yr oesau a ddel yn *helaethach*. A phe baem ni ond gwerthfawrogi yn llawn y rhagorfreintiau sydd yn ein meddiant, credu yr wyf y gwnaem ninau dipyn yn rhagor o ymdrech nag ydym yn wneud i ledaenu efengyl rydd yr Iesu yn mhlith ein cyd-ddynion. Rhy ddifater ac esgeulus o lawer yr ydym ni wedi bod yn yr amser a aeth heibio. Bydded i ni gyfaddef hyny gyda phob gostyngeiddrwydd, ac edifarhau yn y llwch, oblegyd edifeirwch yw y cam cyntaf ar ffordd diwygiad, a boed i ni roddi ein hunain at y gwaith o ddifrif, er mwyn gwneyd i fyny ryw ychydig am ein hoerni a'n difaterwch. Gadawn heibio hollti blew a chweryla ac ymranu yn bleidiau o herwydd methu cydweled lygad yn llygad ar ryw bynciau neillduol; gadawn heibio ymddygiad y "ci yn y preseb," a gwneud dim yn y diwedd; peidiwn gwastraffu amser i rwgnach a chwilio beiau a thyllau yn nghredo yr *Old School* neu'r *New School;* ond casglwn ein nerthoedd yn nghyd, ac ymosodwn yn ddiarbed ar gestyll anwybodaeth, annghyfiawnder, a phechod o bob math.

Y mae yn llawer gwell arnom ni nâ'n cyndeidiau; y mae ein llinellau ni wedi syrthio mewn lleoedd hyfryd mewn cymmhariaeth. Ond

nid yw y milflwyddiant ar y trothwy etto. Ac os ydym ni yn deilwng o'n hynafiaid, rhaid i ni gymmeryd i fyny y baich lle y dodasant hwy ef i lawr, rhaid i ni gario arch cyfammod y ffydd yn mhellach yn mlaen trwy'r anialwch tua Chanaan, oblegyd yn mhell—*draw, draw*—etto y mae y Jerusalem newydd i'w sefydlu; rhaid i ni fod yn fwy unol a'r goleuni sydd ynom, ac yn fwy ffyddlon i'r cyfleusterau sydd yn ein gafael. Yr ydym ni wedi ein geni a'n magu yn mhalas ysplenydd rhyddid crefyddol, ac yr ydym yn bronheulo yn ei hafaidd wres, yn mwynhau ei ddanteithion moethus, yn ymfoddloni ar edrych allan trwy y ffenestri eang ar yr olygfa hardd o'n hamgylch, heb feddwl dim am draul ac aberth y sawl a'i hadeiladasant, ac heb un gofal am y cannoedd o'n brodyr a'n chwiorydd ag ydynt wedi eu geni yn awyrgylch fyglyd y credöau ydynt yn ymdrybaeddu yn eu caethiwed, a thlodi meddyliol a rhagfarn, ac nid ydym yn estyn cymmaint â bys i'w cynnorthwyo i godi i fyny o'u culni a'u hanwybodaeth, y llaid a'r budreddu moesol y maent yn byw ynddo, nac yn ymdrechu rhoddi iddynt syniadau purach am Dduw a dyn, y rhai ydym ni yn feddiannol arnynt.

Yr Hydref diweddaf sefais yn nghwmpeini Proff. Beisso—yr unig Undodwr proffesedig yn Rhufain—ar ddadfeilion y *Colosseum*. Gan edrych i lawr oddiar y grisiau ar y chwareufan *(arena)*, "Dyna lle y ganwyd Cristionogaeth," meddai; a chan bwyntio at y Vatican, palas y Pab ac Eglwys Gadeiriol St. Petr, meddai yn mhellach, "Fan acw y mae Cristionogaeth yn cael ei lladd yn raddol, ond yn bur sicr." Yna aeth fy meddwl yn ol dros y canrifoedd at y merthyri boreuol a osodasant eu bywydau i lawr yn aberth dros y gwirionedd i fwystfilod dynol yn gystal â bwystfilod anwaraidd, ac yn benaf oll at un gwneuthurwr pebyll o Tarsus. Dychymygwn ei weled yn garcharor mewn rhyw gell oer, dywell, dan gysgod palas gorwych Nero, yn aros ei brawf, ac yn cael ei gadwyno wrth ryw filwr Rhufeinig. Er ei fod yn fethedig, ac wedi ei lyffetheirio o ran ei gorff, y mae ei feddwl yn rhydd, ac nid yw Gair Duw yn ei galon a'i enaid yn rhwym; ac mewn perffaith hyder yn ei oruchafiaeth, y mae yn danfon allan o'i garchar lythyrau at yr eglwysi a gânt eu cofleidio a'u hufuddhau gan gannoedd o filoedd o ddynolryw, pan y mae Nero a'i Senedd a'u rhodres wedi suddo am byth i ebargofiant, lle yr haeddant fod. Yn fuan y mae y carcharor yn cael ei ddedfrydu i'w daflu yn ysglyfaeth i'r bwystfilod rheibus yn ngolwg rhyw 80 mil o edrychwyr. Fe saf yn ddigrŷn o flaen y llew, ond y mae yn cael ei orthrechu a'i larpio mewn moment, ac y mae bloeddiadau cymmeradwyaeth y miloedd yn adseinio oddiamgylch. Yna y mae darfod am dano! Nero wedi trechu a gosod terfyn am byth ar yr heresi ddamniol! Na, nid felly. Clywaf leisiau ereill; "Llais main, teneu, sydd yma'n tiwnio," yn fwy treiddiadwy eu sain, yn fwy effeithiol eu grym i ddymchwelyd cydfradwriaeth gormeswyr dynoliaeth. "I mi y mae dial; myfi a dalaf, medd yr Arglwydd." "Edrychwch arnoch eich hunain pa beth yr ydych ar fedr ei wneuthur am y dynion hyn. * * * Ciliwch oddiwrth y dynion hyn, a gadewch iddynt; oblegyd os o ddynion y mae y cynghor hwn,

neu y weithred hon, fe a ddyddimir; eithr os o Dduw y mae, ni ellwch chwi ei ddyddimu, rhag eich cael yn ymladd yn erbyn Duw." Yr oedd Nero yn ymladd yn erbyn Yspryd y gwirionedd, ac fe adawodd y carcharor dirmygedig hwn ar ei ol ddylanwad mwy parhaol nâ'i ormeswr creulawn, oblegyd yr oedd yn weinidog i deyrnas oedd i oroesi teyrnas Nero a'i holl fyddinoedd—teyrnas hedd a chariad—"teyrnas yr ufuddion mâd." "Gwaed y merthyri yw hâd yr Eglwys," ac allan o waed calon Paul llifodd afon, fel o Eden gynt, i bedwar ban y byd, yn yr hon y mae cenedloedd y byd gwareiddiedig heddyw yn disychedu eu heneidiau blinedig trwy yfed o ffynnon y dyfroedd bywiol sydd yn tarddu i fywyd tragywyddol. Ac yn mron ar lwch y *Colosseum* y mae teml wedi ei hadeiladu a'i chyssegru i un o bysgodwyr erlidiedig glan môr Galilea sydd fil mwy gorwych nâ'r *Pantheon* ei hun. Er mor anhawdd yw dymchwelyd sefydliadau hen ag y mae oesau wedi eu cyssegru a'u hanwylo, etto, yn sicr, os yn raddol y dadfeiliant os na fyddant wedi eu sefydlu ar yr iawn sylfaen—rhyddid corff a meddwl. "Lle y mae Yspryd yr Arglwydd yno y mae *rhyddid.*" A digon tebyg fod proffwydoliaeth Proff. Beisso â mwy o wirionedd ynddi nag a ymddengys ar yr olwg gyntaf. "Eithr Gair Duw nis rhwymir," medd Paul; ac ni ddylai Eglwys y Duw byw sydd yn offeryn i ledaenu y Gair ychwaith gael ei rhwymo â chredöau a'i llyffetheirio âg erthyglau. Os nad yw rhyddid—Yspryd yr Arglwydd—yn trigo ynddi, yn chwilfriw yn un â'r llawr y daw yr Eglwys Gadeiriol a'r deml ogoneddus hon ryw awr er mor gadarn yr ymddengys, er mor orwych ei hadeilad, er mor swynol ei gwasanaeth a'i seremoniau, er mor ddysgedig ei hathrawon, er mor anffaeledig ei Phabau, er lluosoced ei chardinaliaid a'i hesgobion, a'i mil o offeiriadon yn Rhufain ei hun. Ni wna dysg a dawn, cyfoeth a dylanwad, mawredd y byd, na byddinoedd arfau cnawdol, ddal eu tir ond dros ychydig amser, yn erbyn rhyddid, gwirionedd, a chyfiawnder—"arfau ein milwriaeth ni" ydynt nerthol trwy Dduw i fwrw cestyll i'r llawr." Ac os y beiddiaf "gymmharu bach â mawr," ni ddylai neb wybod hyn yn well nâ thrigolion Sir Aberteifi. Trown ein meddyliau yn ol am foment. Pa le heddyw y mae gormeswyr a sathrent yn ddiystyrllyd ar ryddid ffermwyr y gymydogaeth hon yn 1868? Ai nid ydynt er ys talm wedi myned "i'w lle eu hun"—i'r dinodedd a'r anfri a deilyngent? Y mae eu henwau yn ffieiddbeth yn ngenau pob Cymro dyngarol. "I mi y mae dial, mi a dalaf, medd yr Arglwydd." Ai nid dyma'r geiriau sydd yn swnio yn nghlustiau crach stewardiaid a chrach foneddigion gormesol Sir Aberteifi heddyw, ac ni a obeithiwn, yn terfysgu ychydig o'u teimladau am y gofid a'r tlodi a ddygasant a'r weddwon ac amddifaid diniwed? Peth mawr yn ngolwg dyn hunanol yw ymffrostio disgyniad o uchel deulu, a bod gwaed coch diledryw yn rhedeg trwy ei wythienau, gan anghofio fod Duw wedi creu "o un gwaed bob cenedl o ddynion i breswylio ar holl wyneb y ddaear."

Beth yw mawrfri, uchel achau, rhwysg a mawredd bonedd byd?
Rhyw oferedd sâl, disylwedd, gwynt a gwagedd oll i gyd.

Ond gwae i'r neb a abertho ryddid a chyfiawnder ar allorau "beilchion byd," a "chau clust a drws tosturi i galedi a gweddi gwlad," sef unrhyw sefydliad dynol, unrhyw eglwys a ddelo i groes-gyffyrddiad â pheiriant Rhagluniaeth Ddwyfol yn ei ymgyrch aruthrol, ryw ddydd a chwelir fel mân lwch y clorianau, ac a chwythir fel us o flaen y gwynt. Nid ychydig o anrhydedd yn ngolwg llawer ydyw perthyn i Eglwys Gadeiriol wedi ei chyssegru gan draddodiadau a duwioldeb y cynoesau; ond anfarwol fwy o ragorfraint yw rhoddi llaw o gymmhorth i adeiladu eglwys ogoneddus y dyfodol—bod fel blaenredegwyr y newyddion da—fel *pioneers* y gwareiddiad boreuol—fel y seren foreu siriol i arwain y crwydryn ar ei daith cyn i'r heulwen ddysglaer godi—i fod yn fynegbost i ddangos y llwybr, os nid dechreu y ffordd, ar hyd yr hon y bydd i genedlaethau dylynol deithio yn ddyogel i raddau helaethach o wybodaeth, rhyddid, a rhinwedd.

"Gad i'r wawr fod o fy wyneb" yn aml yw ein cân; a pheth mawr yw bod yn teithio â'n gwynebau at oleuni gwell. Y mae llong yn hwylio allan o borthladd L'erpwl yn nes i bob bwrpas i New York nâ'r llong sydd yn ymadael â phorthladd New York â'i chyfeiriad tua L'erpwl. Pwnc pwysig, ynte, i ni ydyw ystyried a ydym ni yn teithio yn yr iawn gyfeiriad—a ydym ar lwybr blaenfynediad yr oes. A oes rhyw fymryn o'n heglwys ni yn debyg o oroesi ein dydd a'n tymhor, a chael ei drosglwyddo i lawr i deml sanctaidd ac anadfeiliedig y dyfodol? A ydym ni yn hau yr hedyn mwstard a fydd i dyfu yn bren mawr yn yr oesoedd a ddel, lle y bydd "deiliaid y nef" yn cael lloches dan ei ganghenau yn ystormydd geirwon eu treialon a'u gofid yn ystod eu taith? A ydym ni heddyw yn gwneud rhywfaint hyd yn oed i barotoi y sylfaen—i glirio ymaith y sorod a'r *rubbish*, er cael golwg ar y graig ddisyfl, a bod felly o ryw help i adeiladu y deml ysprydol orwych, lle y bydd i oesau dirif y dyfodol drigo yn nghyd mewn brawdgarwch i addoli yr unig wir a bywiol Dduw mewn yspryd ac mewn gwirionedd, ac i'w hysprydoli i garu a gwasanaethu dyn.

(*I'w barhau.*)

YMDDIRIEDAF YN NUW.

Na dd'wed, fy enaid, O ba le daw help i enaid gwan?
Yr Hollalluog, mae Efe a'i weision yn mhob man.

Ei help yn wastad sicr yw, a'i gynllun, os yn gudd,
Er oedi, ddaw yn bleser byw, a syndod bythol fydd.

Mae'n ddoeth ei drefnau, a di-lyth, a'i galon fyth yn fyw;
Nid yw o flaen ei amser byth, a byth ar ol nid yw.

Ai trwm dy faich? Ai achwyn wnai mai 'chydig sy'n cyd-ddwyn?
Os cario 'rwyt dros Dduw, 'n ddilai, fe'th wylia fyth yn fwyn.

O! ymgyssura, galon fau, yn unig fe ni'th âd,
Y cariad brofaist, etto gai, ar fyr mewn nefol wlad.

Cyf. Gorphenaf, 1883, *gan T.C.U.* T. T. LYNCH.

Y GOLYGYDD AC AP IOAN.

Mr. Gol.—

Wrth gymmeryd yr ysgrifell yn fy llaw nid yw yn fy mryd i'ch argyhoeddi o'ch camsynied, os ydych yn camsynied hefyd; byddai hyny yn waith mor anhawdd agos â chyflawnu un o orchestion Ercwlff gynt; ond efallai y gwna ychydig linellau dan fy llaw yn Yr Ymofynydd fy nghyfiawnhau gyda golwg ar y camgymmeriad tybiedig y syrthiais iddo parth y gair *Church* yn fy erthygl ar Natur Eglwys, yn y rhifyn am Mai diweddaf—fy nghyfiawnhau yn marn eich darllenwyr wyf yn feddwl Mr. Gol., ac nid yn eich barn chwi. Dylwn fod yn ddiolchgar i chwi am alw fy sylw at y "tipyn bach o gamgymmeriad" a wnaethum os gwnaethum ef hefyd, ond diolchgar neu beidio goddefwch i mi ddywedyd cymmaint â hyn, sef y credwyf eich bod weithiau, yn eich byrbwylldra, nid yn eich anwybodaeth, yn myned dros y terfynau yn eich hwyliau ieithegol *(philological)*. Mae olrhain tarddiad geiriau yn gangen ddyddorol o lenyddiaeth, ond dymunwn eich adgofio o'r ffaith wrth farchogaeth ei *hobby* yn esgeulus â'i ysparduno i gicio dynion ereill fod y marchogwr ei hun yn aml yn cael ei lorio. Er arbed trafferth i'r darllenydd gwell efallai fyddai dyfynu eich geiriau eich hun yn y fan hon, felly wele hwynt yn canlyn:—

"Gwir fod y gair *Church* yn cael ei ddefnyddio yn y T.N. i gynnrychioli y groeg *ekklesia*. *Congregation* oedd gair Tyndale, a dyna yn ddiammheu ddylai fod y gair yn mhob man yn y T.N. lle ceir *church*. Ond y mae swn eglwysyddol yn y gair *church*, megys yn y gair *esgob*, *diacon*, ag sydd yn anwyl iawn gan yr offeiriaid, ac ni ellir yn iawn ddysgwyl i wyr yr Eglwys Wladol roddi cyfieithiad priodol iddynt. Nid yw y gair *church* fodd bynag yn golygu cynnulleidfa; fel y gair *Kirk* edrycha am ei darddiad at y Groeg *kuria-kon* (*kurios*—Arglwydd), a golyga 'dŷ yr Arglwydd.'" Gwel Yr Ymofynydd am Mai diweddaf, tudalen 118.

Wel, beth am y "tipyn bach o gamgymmeriad" a wnaethum? A ganlyn ydoedd. Wedi i mi sylwi yn fy erthygl mai ystyr y gair *Ekklesia* a gyfieithir yn Gymraeg Eglwys, ac yn Saesneg *Church*, bob amser y cyfarfyddir ag ef yn y Testament Newydd yw cynnulleidfa, ond erbyn heddyw fod y gair Eglwys neu *Church* yn aml yn cael ei arfer am yr adeilad, y tŷ yn mha un y mae'r gynnulleidfa yn cyfarfod, ac yn neillduol am Eglwys y Plwyf, neu y *Parish Church*; a bod Undodiaid Brondeifi ger Lambedr wedi galw eu capel newydd, hardd, yn *Unitarian Church*. Ni ddywedais fod dim allan o le o du y cyfeillion yn galw'r addoldŷ yn *Church*, ond ei fod yn anysgrythyrol. Yn ol fel y mae y gair yn cael ei ddefnyddio yn y T.N., nid y tŷ yw yr Eglwys neu y *Church*, ond y lle yn mha un mae'r Eglwys, neu'r *Church*, neu'r gynnulleidfa yn cyfarfod i addoli. Deuwch chwithau Mr. Gol. yn mlaen a dywedwch nad yw y gair *Church*, beth bynag eich meddwl am y gair Eglwys, er yn cynnrychioli y Groeg *ekklesia* yn golygu cynnulleidfa, ond "Tŷ yr Arglwydd," ac felly mai eithaf priodol yw galw tŷ addoliad neu dŷ cwrdd yn *church* yn ol ystyr wreiddiol y gair, sef yn ol ystyr *kuriakon* y gwreiddair, yn ol eich barn chwi.

Yn debyg i hyn yna, yn ol fel y deallwyf, y saif y mater mewn dadl rhyngoch chwi a mi. Yr wyf yn cyfaddef mai ychydig yw'm gwybodaeth o ieitheg, mai ychydig yw'm gwybodaeth o bob peth mewn gwirionedd; ac mai'm rheol wrth siarad ac ysgrifenu yw defnyddio geiriau yn yr ystyr eu deallir yn gyffredin gan nad beth eu hystyr wreiddiol, oblegyd, fel y dywed Thomas Edwards yn ei eirlyfr, "*Usage only gives existence to the meaning.*" Yn awr, Mr. Gol., gyda golwg ar y Groeg *kuriakos—kee—kon*, yr wyf yn beiddio gofyn i chwi a oes rhywbeth yn y gair o gwbl yn arwyddo *tŷ*. Onid ansoddair ydyw, ac onid y Saesneg am dano yw *pertaining to, or relating to a master,—pre-eminently* "*to the Lord*," h.y. yn Gymraeg yn perthyn i'r Arglwydd? Paham y dywedwch mai'r *tŷ* sydd yn perthyn i'r Arglwydd yn hytrach nâ'r *bobl* sydd yn y tŷ? Ar hyn o bryd nid fy amcan yn gymmaint yw profi eich bod yn cyfeiliorni—cyn terfynu efallai y cynnygwn wneuthur hyn, ond yr wyf am cael gwybod beth yw eich awdurdod dros gyfyngu yr ystyr i *dŷ* yr Arglwydd. Oni ellir golygu pobl yr Arglwydd yn ogystal?

Yn nesaf, a chaniatau mai ystyr wreiddiol y gair *church* yw tŷ yr Arglwydd, a ydych yn sicr nad oedd arferiad (*usage*) yn nghwrs amser wedi newid ei ystyr? Efallai mai ei ystyr oedd *cynnulleidfa* neu *congregation* pan ddygwyd allan y cyfieithad Saesneg awdurdodedig presenol tua'r flwyddyn 1611 yn nheyrnasiad ac wrth orchymyn Iago y Cyntaf. Yn y gynnadledd enwog a gyfarfu yn *Hampton Court* yn y flwyddyn 1604, er mwyn cael cyfieithad cywirach o'r Beibl yn yr iaith Saesneg, defnyddiwyd y gair *Church* yn yr ystyr ei ceir yn y frawddeg ganlynol,—*for the hearing and for the determining things pretended to be amiss in the Church.* Oni chawn yma un enghraifft o ystyr y gair *church* yn yr amser y gwnaethpwyd y cyfieithad Saesneg presenol? Hefyd, ai rhesymol meddwl i'r pedwar-ar-ddeg a deugain dysgedigion i ba rai yr ymddiriedwyd am y cyfieithad hwn fod mor anonest, ac anffyddlon i'r Ysgrythyrau gwreiddiol â defnyddio y gair *church* mewn ystyr nad oedd yn perthyn iddo? Yr oeddent wedi cael gorchymmyn gan y brenin i wneuthur pob defnydd priodol o'r cyfieithadau Saesneg blaenorol, sef eiddo Tyndale, Matthew, Coverdale, Whitchurch, &c.; ac ai credadwy iddynt gyfieithu *ekklesia* yn *church* (tŷ yr Arglwydd), a hwythau yn gwybod mai *congregation* (cynnulleidfa) oedd gwir ystyr y gair? Os "tŷ yr Arglwydd" oedd ystyr y gair *church* pan gyhoeddwyd y cyfieithad Saesneg awdurdodedig, yr oedd y darllenwyr Saesneg yn rhwym o ddeall tŷ yr Arglwydd "sydd yn eu tŷ hwy," Rhuf. xvi. 5; "yn ol zêl yn erlid" tŷ yr Arglwydd, Phil. iii. 6; a thŷ yr Arglwydd "sydd yn dy dŷ di," Philem. 2. Pa fodd yr ydych chwi, Mr. Golygydd, yn gallu cyfrif am y bonglereiddiwch digyffelyb hwn?

Dywedwch fod y gair *church*, yn mhlith geiriau ereill, ag iddo swn eglwysyddol, fel nas gall gwyr yr Eglwys Wladol ei roi o'r neilldu am air mwy cymhwys. A chaniatau fod rhyw swyn yn y gair i'r offeiriaid ac i'r eglwyswyr yn gyffredin, fel na fynant ei newid am air o well, yr wyf yn gofyn beth oedd y rheswm na wnaethai Belsham, Kenrick, Livermore, Samuel Sharpe, Doddridge, Barnes, ac amryw ereill o esponwyr a chyfieithwyr perthynol i'r gwahanol enwadau, roi i *ekklesia*

gyfieithad cywir? A oeddent dan ddylanwadau rhyw swynion eglwysyddol fel ag yr anwylent hwythau hefyd y gair *church*, er, ar yr un pryd yn gwybod ei fod yn gyfieithad cyfeiliornus o'r gwreiddiol? Yr wyf yn credu i chwi fod yn rhy galonog ar gefn eich *hobby*, ac yn lle ysparduno y dylasech ddal yr awenau yn dynach.

Yn olaf, a oes cwbl sicrwydd mai o'r Groeg mae *church* yn tarddu? Ymddengys i mi eich bod yn dra phenderfynol ar y pwnc. Dywedir bod ci bach yn cario pob peth i'w wâl, felly yr ydych chwithau, yr ydwyf yn credu, yn rhy barod i fyned â phob gair braidd yn ol i'r iaith Roeg. Mae Earle yn ei "*The Philology of the English Tongue*," yn gosod *church* i lawr fel un o'r hen eiriau Saxonaidd neu Teutonaidd; a dywed awdwr yr erthygl ar CHURCH yn Dr. Beard's "*Dictionary of the Bible*," ei fod yn tarddu oddiwrth hen air Allmanaidd yn arwyddo *dewis* (*to choose*), ac felly ei fod yn cyfateb i'r desgrifiad a roddir o'r Cristionogion yn Rhuf. i. 7, fel rhai anwyl gan Dduw, *wedi eu galw* yn Saint, neu, fel y mae'r Arglwydd Iesu yn dywedyd am danynt, dynion nad oeddent o'r byd, ond wedi eu rhoddi gan Dduw iddo Ef allan o'r byd.

Os na wnewch chwi, Mr. Golygydd, byth ddefnyddio y gair *church*, ond yn yr ystyr o dŷ'r Arglwydd, a rhoddir iddo yr ystyr lygredig yma weithiau, megys y *Parish Church* ac *Unitarian Church*, yn golygu yr adeiladaeth, byddwch ar eich pen eich hunan braidd yn mhlith y cannoedd a'r miloedd sydd yn ysgrifenu ac yn siarad am yr Eglwys, am y *church* fel corff o ddynion wedi eu galw a'u dewis allan o'r byd i fod yn Gristionogion ac yn Saint Duw. Dyma fi yn gorphen fy *nghase*, a chredwyf y bydd eich darllenwyr o'r farn fy mod wedi gwneuthur *case* da, er, mwy nâ thebyg, ddim yn ddigon da i'ch argyhoeddi chwi o'ch camsyniad.

Yr eiddoch, yn rhwymyn cariad brawdol a Christionogol,

Gorph. 29, 1884. AP IOAN.

Y PAROUSIA YN YR ACTAU.

SYR,—

Nid ymddengys i'r Iesu na'r dysgyblion crioed feddwl y buasai neb yn dychymygu mai nid ar y ddaear y bydd Teyrnas Nefoedd; am hyny, ychydig yw yr ymadroddion *(passages)* a geir yn y Testament Newydd i brofi yn uniongyrchol mai ar y ddaear y bydd. Nid oedd eisieu eglurhau peth oedd yn cael ei gymmeryd yn ganiataol gan bawb y pryd hwnw. Dau neu dri yn llyfr yr Actau yw y manau oddiwrth y rhai y gellir casglu mai nid yn rhywle yn mhell y tu hwnt i'r flurfafen, yn ol y dyb gyffredin, ond ar y ddaear y bydd. Mae yr egwyddor, er hyny, yn rhedeg trwyddo oll, fel yn yr Efengylau.

Y cyntaf yw yr ymddyddan a gymmerodd le rhwng yr Iesu a'i ddysgyblion ychydig cyn ei esgyniad. "Gan hyny," medd yr hanes-

ydd, "wedi eu dyfod hwy yn nghyd, hwy a ofynasant iddo, gan ddywedyd, Arglwydd, ai y pryd hwn y rhoddi drachefn (yr adferi*) y freniniaeth i Israel? Ac efe a ddywedodd wrthynt, Ni pherthyn i chwi wybod yr amseroedd na'r prydiau, y rhai a osododd y Tad yn ei feddiant ei hun" (i. 6—7).

I ddeall yr ymadrodd hwn yn iawn, dylid sylwi mai *adferiad o deyrnas Israel, ond yn anghydmarol mwy perffaith, fydd teyrnas Dduw.* Nid eiddo breninoedd Israel oedd yr orsedd yr eisteddent arni. Eiddo Jehofa ydoedd. Dywedir am Solomon ei fod ef "yn eistedd ar orsedd yr Arglwydd" (1 Chron. xxix. 23). Hefyd, "Na fwrw i lawr orsedd dy ogoniant," neu dy orsedd ogoneddus, yw gweddi rhai o drigolion Jerusalem pan oedd y ddinas yn cael ei gwarchae gan fyddinoedd Brenin Babilon, sef Nebuchodonosor (Jer. xiv. 21). Rhagdeyrniaid, neu *viceroys*, dan Jehofa, oedd breninoedd Juda. Jehofa oedd y brenin, ac efe biodd yr orsedd. Sedeciah oedd y diweddaf a eisteddodd arni. Yn ei deyrnasiad ef y dinystriwyd y ddinas a'r deml gan y brenin uchod. Darfu gorsedd Jehofa y pryd hwnw (C.C. 593). Mae yn wir fod breninoedd wedi bod ar yr Iuddewon wedi Sedeciah, ond breninoedd oeddynt o apwyntiad y cenedloedd. Er fod gorsedd Jehofa wedi darfod er ys mwy na thri chant ar hugain o flynyddau, mae hi etto i gael ei hadferu, a'r Arglwydd Iesu fydd ei brenin—un o hâd Dafydd. Y mae i'w meddiannu am fil o flynyddau. Yn yr amser hwnw y bydd iddo "ddileu pob pendefigaeth, a phob awdurdod a nerth" (1 Cor. xv. 24). Ei deyrnas "a faluria ac a dreulia" holl deyrnasoedd y cenedloedd (Dan. ii. 44). Yna "rhydd i fyny y deyrnas i Dduw a'r Tad." O hyny allan bydd Duw yn bobpeth yn mhawb dros wyneb yr holl ddaear. Ni bydd angeu mwy. Y pryd hwn y bydd "ewyllys Duw yn cael ei gwneyd ar y ddaear fel yn y nef."

Credai yr Iuddewon yn amser Crist y byddai i deyrnas Israel gael ei hadferu dan y Messia. Wrth gwrs, hyn hefyd oedd cred y dysgyblion. Yr unig gamsyniad a wnaent oedd yn nghylch amser a natur y deyrnas. Credai y dysgyblion y byddai iddo ei gosod i fyny yn ddioed, a chyhoeddi ei hun yn frenin. Nid oeddynt eto wedi deall yr Iesu, na threfn Duw. Mawr oedd eu siomedigaeth pan y gwelsant ef yn gelain ar y groes. "Yr oeddem ni," meddent, "yn gobeithio mai efe oedd yr hwn a waredai Israel" (Luc xxiv. 21). Pan y gwelsant ef yn fyw drachefn wedi ei adgyfodiad, adfywiodd hefyd yr hen gred. "Ai y pryd hwn y rhoddi drachefn y freniniaeth i Israel?"

Yn awr, dalier sylw ar ateb yr Iesu. "Ni pherthyn i chwi wybod yr amseroedd a'r prydiau, y rhai a osododd y Tad yn ei feddiant ei hun." Gwel y darllenydd nad yw yr Iesu yn dweyd na fydd i'r freniniaeth gael ei hadferu i Israel. Yn unig nad yw yn perthyn iddynt hwy wybod yr amser y bydd i hyny gymmeryd lle. Pe buasai eu cred yn nghylch yr adferiad yn gyfeiliornus, yn sicr, ni chaniatasai iddynt lafurio dan gamsyniad o gymmaint pwys. Gellir dweyd, mae yn wir, iddo eu gadael i gael gwell gwybodaeth ar y pwnc pan yn meddiant

* Gwel Schleusner dan y gair *apokathistano.*

o'r Yspryd Glân. Ond nid felly, oblegyd gwyddom i Petr gadarnhau yr un gred wedi dydd y Pentecost, fel y caf ddangos yn fuan.

Yn nesaf cyfeiriaf sylw y darllenydd at y ddegfed a'r unfed adnod ar ddeg o'r un bennod. "Ac fel yr oeddynt yn edrych yn ddyfal tua'r nef, ac efe yn myned i fyny, wele, dau wr a safodd gerllaw iddynt mewn gwisg wen, y rhai hefyd a ddywedasant, Chwi, wyr o Galilea, paham y sefwch yn edrych tua'r nef? yr Iesu hwn, yr hwn a gymmerwyd i fyny oddiwrthych i'r nef, a ddaw felly yn yr un modd ag y gwelsoch ef yn myned i'r nef."

Mae y geiriau hyn yn eithaf eglur, ac nid yn hawdd y gellir eu hysprydoli. "Yr Iesu hwn * * * a ddaw felly yn yr un modd ag y gwelsoch ef yn myned i'r nef," hyny yw, yn amlwg i'w weled. Yn sicr, nid y parousia cyntaf sydd yma i'w feddwl, pan y daeth i ddinystrio Jerusalem a'r deml, oblegyd, er ei fod yn bresenol, ac yn Sar Sarim, neu y *commander-in-chief** ar Titus a'i filwyr, y rhai oeddynt yn offerynau trwy y rhai y cyflawnwyd y dybenion Dwyfol, yr oedd yn anweledig, ond yn y Parousia hwn bydd yn amlwg—"pob llygad a'i gwel ef." Am hyny, mae yn eglur mai at yr ail ddyfodiad y cyfeiriai y ddau wr mewn gwisg wen.

Yn awr, un o ddau beth sydd wir. Naill ai ffugiaeth yw'r hanes, neu y mae yr Arglwydd Iesu etto i ddychwelyd i'r byd. Nid oes un rheswm digonol i ddrwgdybio gwirionedd yr hanes. Yr hanesydd oedd Luc, "y physygwr anwyl," Groegwr, yn ddigon tebyg, ac nid Iuddew. Efe hefyd a gyfansoddodd yr efengyl sydd dan ei enw. Nid oes neb etto wedi gallu gwrthbrofi hyn, er fod rhai wedi cynnyg. Nid hanesydd byrbwyll oedd Luc, yn cymmeryd pethau ar dystiolaeth amheus. Ei arfer fel hanesydd oedd "dilyn pobpeth yn ddyfal o'r dechreuad" (Luc i 3). Yr oedd hefyd nid yn unig yn gydymaith yr apostol Paul yn ei deithiau, ond yn byw yn amser rhai o'r dysgyblion, oblegyd cyfansoddodd lyfr yr Actau oddeutu y flwyddyn 63†. Tebygol iawn iddo gael yr hanes o enau y sawl oeddynt yn llygaid-dystion o'r peth. Mae pob dyn pwyllog, gan hyny, yn rhwym o ddyfod i'r casgliad fod yr hanes yn wir, a bod yr Arglwydd Iesu etto i ail ymddangos, ac i deyrnasu gyda'i saint anfarwol ar fynydd Seion, yr hwn, er wedi cael ei fathru am gannoedd lawer o flynyddau o dan draed y cenedloedd, sydd eto i fod "yn ddyrchafedig goruwch y bryniau; a'r holl genedloedd a ddylifant ato." Isaiah ii. 2.

Etto, ac yn olaf, trown at araeth Petr pan yr iachawyd ganddo ef ac Ioan y dyn cloff wrth un o byrth y deml. Act. iii. Rhan o'r araeth, ac at yr hon y cyfeiriaf yn fwyaf neillduol, yw y geiriau canlynol:—"Edifarhewch gan hyny, a dychwelwch, fel y dileer eich pechodau pan ddelo yr amseroedd i orphwys o olwg yr Arglwydd; ac yr anfono efe Iesu Grist, yr hwn a bregethwyd o'r blaen i chwi; yr hwn raid i'r nef ei dderbyn, hyd amseroedd adferiad pob peth, y rhai a ddywedodd Duw trwy enau ei holl sanctaidd broffwydi erioed."

---

* Gwel fy llythyr yn rhifyn Gorphenaf.

† Gwel Kuinoel's prolegomena. § 6.7.

Y mae rhyw beth yn dywyll yn y geiriau o herwydd camgyfieithiad. Am hyny, gwell fyddai yn gyntaf rhoddi esponiad byr o honynt.

Edifarhewch gan hyny, a dychwelwch, fel y dilëer eich pechodau. Wrth yr luddewon y mae yn llefaru. Yr oeddynt nid yn unig wedi gwrthod yr Iesu fel y Messia, a hyny yn ngwyneb profion diamheuol, ond wedi ei groeshoelio fel teyrnfradwr yn erbyn Ymerawdwr Rhufain. Nis gallasent fod yn euog o waeth gweithred. Gan hyny, y mae yr apostol yn eu hanog i edifarhau, fel y celent faddeuant, trwy dderbyn yr Arglwydd Iesu fel y Messia.

Pan ddelo yr amseroedd i orphwys o olwg yr Arglwydd.—Mae yma gamgyfieithiad ag sydd yn gwneuthur y geiriau yn annealladwy a disynwyr. Tardda oddiwrth gamsynied meddwl dau air Groeg yn y gwreiddiol.* Dylai cyfieithwyr ac esponwyr y Testament Newydd gadw yn wastad mewn cof mai Hebrewyr oedd yr apostolion, a bod yn eithaf hyddysg yn yr iaith Hebraeg. Mae diffyg o hyn wedi arwain i gamsyniadau. Meddwl yr apostol yw, *Pan ddelo amseroedd gorphwystra yn mhresenoldeb yr Arglwydd*, neu Jehofa. Cyfeirio mae at amseroedd teyrnas nefoedd, pan fyddo saint Duw, y mwyrif mawr o honynt hyd yn hyn yn gorwedd yn mhriddellau y ddaear, wedi eu hadgyfodi a'u hanfarwoli yn nyfodiad yr Arglwydd Iesu, ac yn mwynhau gorphwystra yn nheyrnas Dduw—gorphwystra oddiwrth wendidau, a thrallodion, a gofidiau, a thristwch y bywyd hwn.

Ac yr anfono efe (Duw) *Iesu Grist.* O ba le? O'r nef, lle yr esgynodd. I ba le? I'r byd hwn drachefn, i osod i fyny deyrnas nefoedd yn ei grym, "ac i adgyfodi y rhai ydynt yn eiddo Crist yn ei ddyfodiad ef" (1 Cor. xv. 23).

Yr hwn sydd raid i'r nef ei dderbyn? Neu yr hwn sydd raid iddo aros neu drigianu yn y nef. Hyd pa bryd? Mae yr ateb yn canlyn:—

Hyd amseroedd adferiad pob peth, y rhai a ddywedodd Duw trwy enau ei sanctaidd broffwydi erioed. Nid yw y gair *adferiad* yma yn dynodi meddwl yr apostol. Buasai y gair *cyflawniad* yn agosach i'r meddwl.* Hyny yw, nid yw yr Arglwydd Iesu i ddychwelyd drachefn hyd nes y cyflawner pob peth a ragddywedwyd am dano gan y proffwydi. Nis gall neb yn iawn wybod pryd y bydd y cyflawniad hwn wedi cymmeryd lle. Mae llawer o'r proffwydoliaethau am dano wedi eu cyflawnu yn barod. Mae rhai yn awr yn cael eu cyflawnu, ac y mae ereill etto yn ol. Un peth sydd sicr, sef fod yr amser yn cyflym ddynesu. Byddwn barod.

Ond rhaid i mi, syr, ddiweddu y tro hwn etto. Dyma yn awr dair tystiolaeth fod yr Arglwydd Iesu i ddychwelyd, ac i osod i fyny deyrnas Dduw yn sylweddol ar y ddaear, sef ei dystiolaeth ef ei hun yn yr Efengylau, ac wrth ymadael am y tro diweddaf â'i ddysgyblion, tyst-

---

**Apo prosôpou* sydd gyfieithiad llythyrenol o'r gair Hebraeg *liphneé* neu *milliphneé*, yr hwn sydd yn meddwl *o flaen* neu *yn mhresenoldeb*. Gweled y darllenydd dysgedig Gesenius dan y gair *pa-né*. D.

* Gwel Schleusner ar y gair *Apokatastasis*. Hefyd Wahl a Schoettgenius.

iolaeth y ddau wr a ymddangosasant yn ddisymwth iddynt ar fynydd yr Olewydd mewn gwisg wen, a thystiolaeth Petr yn ei araeth yn y deml. Y maent yn wir yn dystiolaethau cedyrn, ac os y dal neb allan yn eu gwyneb i annghredu gwiriondeb mor bwysig, nid oes genyf ond dweyd fod yr Apostasi wedi gafaelu yn lled gadarn yn meddyliau Cristionogion yr oes.

Birkenhead, Awst y 9fed. D. L. Evans.

CHRISTADELPHIAETH.

Sylwadau ar Erthyglau y Proffesswr Evans.

Mr. Golygydd.—Nid iawn, feallai, yw gadael yn ddisylw yr ysgrifau sydd wedi ymddangos yn yr Ymofynydd er ys misoedd bellach, ac wedi eu harwyddnodi gan D. L. Evans, Birkenhead, ac yr ydwyf braidd yn sier y buasai dystawrwydd ar ran eich gohebwyr arferol yn ffurfio digon o reswm yn marn y Proff. Evans dros gredu nad oes dim i'w ddweyd yn erbyn ei syniadau, a'n bod ni oll wedi cael ein cario oddiar ein traed gan ryferthwy anwrthwynebol ei ymresymiadau; ac os ydym fel y desgrifia efe ni yn Rhifyn Gorphenaf, tud. 153, yn "ddysgawdwyr crefydd" ag ydym "yn hollol ddinerth, ac yn watwargerdd i'r werin;" mae yn eithaf possibl ein bod yn agored i gael ein cylch-arwain gan bob awel dysgeidiaeth. Mae gan yr awelon cyfnewidiol yma eu swyn i lawer yn ddiau, ond yr wyf yn amheu, ai Yr Ymofynydd yw y cyfrwng priodol i wyntyllio dychymygion a damcaniaethau tebyg i'r rhai mae Mr. Evans fel "*speculative Unitarian*," wedi fabwysiadu yn ddiweddar. Ond feallai fod *ideal* uwchaf Ymofynydd a chyhoeddiad rhyddfrydig yn cael ei gyflawni pan mae Proff. Evans ar un llaw yn *materoli'r* cwbl, a J. Ll., awdwr yr atebion yn y rhifyn diweddaf, yn *ysprydoli'r* cwbl. Dysgwyliwn yn y Rhifynau dyfodol fod yr un cynllun yn cael ei gario allan, a chroesaw i'w dudalenau yn cael ei estyn i'r Ysprydegwyr, y Mormoniaid, a'r *Peculiar People*, &c. Ar ol agor y drws unwaith, rhodder chwareu teg i bawb i farchogaeth eu *hobbies*. Yr unig wrthwynebiad sydd gyda fi yn erbyn Proff. Evans yw, ei fod wedi bod yn marchogaeth cyhyd, ac nad oes argoel yn y byd fod yr ymdaith ar ben etto. Nid yw hyn ond mantais i mi, gan fod amynedd eich darllenwyr wedi ei ddysgyblu i'r fath raddau, fel nad oes berygl i mi i fyned dros y terfynau. Yr wyf yn eu sicrhau, er hyny, na ddefnyddiaf ond ychydig dudalenau yn y Rhifyn hwn a'r nesaf yn unig i gyflen gwrth-brofion sydd yn awgrymu eu hunain i'm meddwl yn erbyn damcaniaethau Proff. Evans. Ceisiaf fod yn fyr, ac er mwyn hyny, ni wnaf gynnyg ond am-linelliad (*outline*) yn unig o'r rhesymau sydd yn peru i mi gredu mai brenin yn ymerodraeth syniadau ac egwyddorion *oedd* yr Iesu, *yw* yr Iesu, a *bydd* yr Iesu, ac nad yw amcandybiaeth y Proffesswr ond *caricature* isel, materol, a dacarol i'r

deyrnas ysprydol a sefydlodd yr Iesu yn y byd. Tybiwyf mai hanfod y cwestiwn yw y *parousia*, a siarad yn ddysgedig, gan mai ar ol y *parousia* y bydd Crist, mae'n debyg, yn sefydlu ei deyrnas ar y ddaear. Mae a fyno y sylwadau canlynol â'r mater hwnw yn fwyaf neillduol.

Nid wyf yn bwriadu myned i ddadleu o gwbl â'r Proffeswr. Fy amcan yn unig yw dangos y safle ag ydwyf fi a'r rhan fwyaf, debygwn, o Undodiaid diweddar yn sefyll arni gyda golwg ar y cwestiwn hwn a chwestiynau perthynasol iddo. Mewn gair, nid yw yn bossibl i mi i ymddadleu ag ef, oblegyd nid oes un tir cyffredin i'r pleidiau i sefyll arno. Yr wyf yn gwadu ei gynseiliau yn benderfynol. Gadewch i mi ddweyd wrth y Proffeswr, nad yw hi ddim yn debyg y gwel ef, nac y gwelaf finau mwy, un ddadl yn cael ei chario yn mlaen rhwng Undodiaid a'u gilydd, a rhwng Undodiaid ac enwadau ereill ar yr hen linellau—y Beibl fel maen prawf ac oracl anffaeledig. Fel y dywed Dr. Martineau:—Yr ydym fel cangen o'r Eglwysi diwygiedig wedi ymwrthod am unwaith ac am byth a phob awdurdod allanol mewn crefydd. Mae y Beibl fel y Pab yn ein golwg wedi darfod bod yn safon anffaeledig, yn faen prawf pob syniad, ac yn oracl ddwyfol i benderfynu pob cwestiwn. Mae yr hyn a ddefnyddiwyd unwaith fel llaw-lyfr dwyfol wedi dyfod erbyn hyn yn lenyddiaeth ddynol.* Pe buasai Proff. Evans yn llwyddo i brofi ei gyfundrefn yn hollol foddhaol ar sail yr Ysgrythyrau, pe buasai yn pentyru adnod ar adnod, ac yn dwyn holl adnoddau beirniadaeth destunol y Beibl yn un llanw anwrthwynebol a ysgubai ymaith mewn ymddangosiad bob gwrth-brawf, ni fuasai yr un fodfedd yn nes im' hargyhoeddi, ar ol ei holl lafur. Hefyd, yr ydym wedi ymwrthod â'r holl chwedloniaeth Fessianaidd sydd wedi cyssylltu ei hun yn y Beibl ac yn hanes yr Eglwys a pherson Iesu o Nazareth. Fel y dywed Dr. Martineau yn yr un llyfryn, "Mae pob peth *swyddol* a gyssylltwyd â pherson yr Iesu gan efengylwyr a duwinyddion wedi syrthio ymaith. Nid yw rhwysg llinach freninol, proffwydoliaethau wedi eu cyflawnu, swyddi brenin, offeiriad a barnwr, y dyfodiad gyda gosgordd o angelion ar gymmylau'r nef, yn ddim ond gwisgoedd sydd yn anharddu ei brydferthwch, ac nid yw'r Iesu yn ddim ond blodeuyn dwyfol dynoliaeth, yn blaguro ar ol oesau o dyfiant ysprydol—possiblrwydd bywyd yn Nuw wedi ei sylweddoli mewn dyn."† Elfen fawr arall yn nghyfundrefn Proff. Evans yw proffwydoliaethau yr Hen Destament, ac fe'i cawn heb unrhyw ofal am gywirdeb beirniadol yn dyfynu Daniel gyda chymmaint o hyder ag Esaiah, er y dysgwyliwn ei fod yn gwybod y ddedfryd mae y rhan fwyaf o feirniaid goleuedig yr oes wedi gyhoeddi ar y llyfr rhyfedd hwnw. Dichon ei bod yn un o nodweddion yr *apostasia*, ond mae yn ffaith beth bynag, fod "yr ymresymiad oddiwrth broffwydoliaeth yn mron colli ei rym yn gyfangwbl, ac mae'r hen broffwydi Iuddewig dan bwys beirniadaeth ddiweddar yn gorfod taflu ymaith eu cymmeriad fel rhagddywedwyr y

* Loss and Gain in Recent Theology, pp. 9—11.

† Page 14.

dyfodol, ac yn ymddangos ger ein bron yn eu gwir gymmeriad fel pergethwyr cyfiawnder a diwygwyr mawrion eu pobl a'u cenedl.

Dywed Dr. Vance Smith:—"Dengys ystyriaeth ddyladwy o amgylchiadau hanesyddol pob proffwyd a'i amserau, fod a fyno ei feddyliau yn gyfangwbl a'r personau oddiamgylch iddo, eu hymddygiad, a'u tynged, yn gystal ag eiddo ei llywodraethwyr; ac hyd y nod pan y dichon i'w feddwl edrych yn mlaen i'r dyfodol; a'r dyfodol fel y mae'n gorwedd yn uniongyrchol o'i flaen mae a fyno yn benaf, neu feallai, yn gyfangwbl. Yn y modd hyn, dim ond mewn ystyr ail-raddol a chymhwysiadol mae geiriau y Proffwydi a'r Psalmwyr yn cael ei trosglwyddo i amseroedd pell y Testament Newydd, a'u cymhwyso at Grist ac amgylchiadau yr hanes boreu Cristionogol."* Yr wyf wedi dyfynu Dr. Martineau a Dr. Vance Smith, er mwyn cyfleu y safle Undodaidd ary materion pwysig hyn fel mae wedi ei osod allan gan ddau nad oes dim dadl am eu henwogrwydd fel duwinyddion na chwaith am gymmedroldeb eu syniadau. Ar awdurdod anffaeledig y Beibl, a'i gymmeriad fel oracl ddwyfol, ar y chwedloniaeth Fessianaidd yn nghyd a'r ymresymiad oddiwrth broffwydoliaeth mae'r Proffeswr wedi sylfaenu ei amcandybiaeth. Nid wyf yn credu yr un o honynt, ac os na ellir cytuno ar y cynseiliau, nid yw yn bossibl i gario yn mlaen unrhyw ymresymiad. Byddai yn eithaf priodol i mi i derfynu yn y man hwn heb droseddu unrhyw ddeddf mewn rhesymeg, ond feallai y byddai o ddefnydd i grybwyll yn eglur ac mewn trefn y rhesymau sydd yn ei gwneyd yn anmhossibl i mi i dderbyn syniadau Christadelphaidd Proff. Evans, a cheisiaf wneyd hyny yn y Rhifyn nesaf.

Llandyssul, Awst 9, 1884. W. James.

EIN GENETH GU.

Mae y gadair fach yn wag;
Mae ein bachgen, heb ei ffrynd,
Acw yn chwareu, acw yn holi
I ba le mae wedi myn'd!

Gwrando mae am swn ei thraed,
Wrth y drws, yn agor draw,—
Ond O, 'r anwyl chwaer fach etto,
Dros y trothwy byth ni ddaw!

Ni chawn weled mwy mo'i gwên,
Na byth mwy ei gwel'd yn dwyn
Yn hoff rhoddion i'w rhieni,
Ei chusanau melus mwyn.

Ni ddaw mwy i blygu clin,
Mewn hwyr weddi gyda'i brawd;
Ond dros byth mae wedi gorphen
Ar y ddae'ren hon ei rhawd.

Diane wnaeth ein geneth hoff,
Goleu'r teulu, tes y tŷ;
Ac ni fydd ein cartref etto
Yr hyn oedd o'r blaen i ni.

Ffarwel mwy i'r geiriau bach,
A'r llais llawen sydd yn fud;
Er fod adsain ei pheroriaeth
Gyda ni'n parhau o hyd.

Ond O, 'r croesaw fel i dref,
At y ddedwydd dyrfa lân!
Y mae enaid pob prydferthwch
Byth mwy'n canu'r ddwyfol gân.

Er mor hardd ac er mor fawr
Yw gogoniant nefoedd fry;
Y mae'r nefoedd yn ddysgleiriach
'N awr fod yno'n geneth gu.—C. M. G.

---

* The Prophets and their Interpreters, p. 39.

MR. JOHN JONES, GELLIFAHAREN, LLANDYSSUL.

(Bywgraffiad.)

Nid yw yn angenrheidiol i roddi manylion yr amgylchiad torcalonus a derfynodd fywyd gwerthfawr y boneddwr uchod. Maent yn hyspys yn ddiamheu i holl ddarllenwyr Yr Ymofynydd erbyn hyn, ac nid oes neb o honynt nad yw yn teimlo yn ddwys y golled, ag y mae nid yn unig ei deulu, ond y gymmydogaeth, yr achos rhyddfrydig mewn gwleidyddiaeth a chrefydd, wedi ddyoddef yn ei farwolaeth. Yr oedd Mr. Jones yn perthyn i hen deulu parchus Castellhywel o ochr ei fam, ac mae Gellifaharen wedi bod yn dreftadaeth ei hynafiaid am oesoedd lawer. Er fod Castellhywel yn fwy adnabyddus, etto mae yn hawdd casglu mai dynion penderfynol, rhyddfrydig, a blaenfynedol eu hyspryd oedd Jonesiaid Gellifaharen. Darfu iddynt hwy, yn ddiamheu, gymmeryd rhan i suo cryd ymneillduaeth yn mhlwyf Llandyssul. Ar eu tir hwy yr adeiladwyd addoldy Pantycreuddyn, tua dechreu y ganrif ddiweddaf. Y tŷ cwrdd Ymneillduol cyntaf yn y plwyf, ac i'r hwn mae annibyniaeth ac Undodiaeth llawer o blwyfi yn ddyledus am eu cychwyniad. Gyda gwaed cymmysgedig y ddau deulu parchus hyn yn rhedeg yn ei wythienau, nid rhyfedd fod Mr. Jones wedi eael ei eni yn Rhyddfrydwr. Ychwaneger at nerth a gwresogrwydd rhyddfrydig ei natur, awyrgylch Ryddfrydig plwyf Llandyssul, cymdeithas ac esiampl y rhai oeddynt wedi dyoddef pwys a gwres y dydd gyda phob achos daionus, manteision addysg lawer uwch nâ'r cyffredin, ac nid oes eisieu i ni synu fod Mr. Jones wedi profi ei hun nid yn unig yn Rhyddfrydwr aiddgar, sclog, a phenderfynol, ond yn un goleuedig, ac yn berchen ar nodweddion a'i gwnaethant yn arweinydd y plaid am flynyddau. Fel y dywedais, yr oedd yn hanu o deulu Castellhywel. Yr oedd ei fam yn wyres i'r bardd a'r ysgolor enwog a adnabyddir yn gyffredin yn Sir Aberteifi, fel "yr hen Ddafis" o barchus goffadwriaeth, yr hwn a ymsefydlodd yn Castellhywel tua'r flwyddyn 1783. Mae'r teulu, erbyn hyn, wedi ymganghenu ac ymwahanu, y mwyafrif wedi aros yn Sir Aberteifi, rhai wedi myned i Loegr, ac ereill i America, ond yr oll yn edrych i fyny gyda pharch ac anwyldeb neillduol at yr hen dad o Gastellhywel. Mae un o'r teulu wedi adnewyddu hen Ysgol Castellhywel, ac mae "Castle Howell School," Lancaster, o dan lywodraeth y Parch. D. Davis, B.A., mab y diweddar Barch. Timothy Davis, Evesham, ac wyr "yr hen Ddafis" yn ysgol enwog yn mhlith plant yr Undodiaid yn Lloegr. Ond i ddychwelyd, cafodd Mr. Jones y rhan fwyaf o'i addysg yn Ysgol y Parch. J. Davies, gweinidog Llwynrhydowen, yr hwn a drigianai yn Castellnewydd Emlyn. Oddiyno y symudodd i Ysgol enwog Cowbridge. Deallwn nad oedd yn dygymod rhyw lawer ag awyrgylch yr Ysgol hon, oblegyd clywsom ef lawer gwaith yn achwyn ar y cwrs o efrydiaeth y gorfodid of i'w ddylyn. Y Clasuron—y Groeg a'r Lladin—oedd yn myned a'r holl amser, a phob peth *practical* ar gyfer bywyd gweithgar fel eiddo Cyfreithiwr yn cael ei esgeuluso. Mae'r hen drefn yma o bethau wedi darfod, ac mae gan

bob Ysgol fawr erbyn hyn ei *modern side*, wedi ei chymhwyso at angenion uniongyrchol dynion ieuainc sydd yn parotoi ar gyfer galwedigaethau ymarferol bywyd. Wedi'r cwbl, gan nad beth feddyliai Mr. Jones ei hun am ei yrfa yn Cowbridge, yr ydym yn credu na wnaeth y classuron ddim niwed iddo beth bynag. Mae Proffeswr Lladin yn Ysgotland yn cael ei alw yn Broffeswr *Dynoliaeth*, ac feallai fod gan efrydiaeth o gyfoeth llenyddol y Groeg a'r Lladin rywbeth i wneyd a chymmeriad amlochrog Mr. Jones, ei gydymdeimladau eang, ac absenoldeb y culni hwnw sydd yn nodweddu rhai dynion ydynt wedi eu llyncu i fyny yn gyfangwbl gan fanylion eu galwedigaeth. Treuliodd Mr. Jones ei amser fel *egwyddor-was* gyda'i ewythr, Mr. Ben. Evans, Castellnewydd Emlyn, Cyfreithiwr llwyddiannus iawn ac adnabyddus trwy holl ranau isaf Sir Aberteifi beth bynag. Ac os oedd yr *ymarferol* wedi ei esgeuluso yn Cowbridge, gwnaed y diffyg i fyny yn y swyddfa, ac fe aeth Mr. Jones allan ar derfyn ei amser a'i wyneb at y byd gyda dyfodol n.wy dysglaer o'i flaen na ddaeth erioed feallai i ran un Cyfreithiwr arall yn Sir Aberteifi. Ymsefydlodd yn Llandyssul, daeth ei swyddfa yn fuan yn ganolbwynt cylch helaeth o *glients* oedd yn ymeangu hyd y diwedd, a bu ei yrfa yn linell hir o lwyddiantau hyd nes iddo ryw llwyddyn a hanner yn ol gyrhaedd y pwynt uwchaf y gallasai Cyfreithiwr yn Nghymru ei gyrhaedd- y swydd o Gofrestrydd Llys Sirol Abertawe. Mae'n gwestiwn i ofyn beth oedd wrth wraidd ei lwyddiant, pa rai oedd yr elfenau hyny yn ei gymmeriad a'u derchafodd mor uchel yn ei alwedigaeth, yn gystal ag yn serch pawb a ddeuent i gyssylltiad ag ef? Er atcb hyn nis gallwn wneyd yn well na dyfynu yr am linellnad rhagorol o'i gymmeriad a gawn yn y bregeth angladdol a draddodwyd yn nghapel yr Undodiaid yn Abertawe, gan y Parch. J. E. Manning, M.A., yr hwn sydd wedi llwyddo i ddweyd yr hyn sydd fy meddwl ac yn fy mhrofiad o Mr. Jones yn well nag y gallaswn ei ddweyd fy hun. "Nid oedd Mr. Jones wedi bod yn byw yn hir yn Abertawe, ond yr oedd yn barod wedi ennill parch pawb oedd yn ei adnabod. Yr oedd ef (y pregethwr) yn priodoli hyny i drwyadlodd a nerth ei gymmeriad. Yr oedd yn gyfreithiwr a weithiai yn ddiwyd ac yn galed, ac uwchlaw y cwbl yn gyfreithiwr gonest ac uniawn; heb unrhyw dalent neilldnol feallai i'w gymmeradwyo, gwnaeth ei waith yn ffyddlon gyda didwylledd diwyro; ni wnaeth un *show*; ni chymmerai arno i fod yr hyn nad oedd; yr oedd yn fonedduwr plaen, *true*, ffyddlon, a gonest. Meddyliai ef mai ei brif nodwedd oedd ffyddlondeb i'w argyhoeddiadau; yr oedd yn ffyddlon i egwyddor, i ddyledswydd, ac i'w gyfeillion, ffyddlon i'w ffydd grefyddol, ac i'r eglwys y perthynai iddi. Safai yn mhlaid y gwan, ac yr oedd yn golofn o gadernid; safai wrth ei air, ac ni phrofwyd erioed ei fod wedi ei dori; yr oedd yn ddyn ag y gosodai pawb oedd yn ei adnabod hyder diderfyn ynddo, a dyna paham mae pobl Llandyssul yn galaru am dano yn awr fel eu cyfaill goreu. Nid oedd Mr. Jones yn gadael i'w law aswy i wybod beth oedd ei law ddeheu yn wneyd. Yr oedd yn haelionus iawn, bob amser yn barod i helpu, pan y gwyddai fod help mewn gwirioncdd yn eisieu. Mor dda yr oeddynt yn cofio yr achlysur hwnw pan y darfu i erlodigaeth

greulawn oddiweddyd cynnulleidfa Llwynrhydowen, pan y cawsant ddrysau eu teml eu hunain wedi eu cau yn eu herbyn, ac y gorfodid hwy i gynnal eu gwasanaeth yn yr awyr agored yn mhresenoldeb eu Seion a beddau y rhai ffyddlon oeddynt wedi meirw, pan y darfu i'r gweinidog gwrol a dysgedig, William Thomas (enw yr hwn a gofir pan y bydd enwau ei erlidwyr wedi myned i ebargofiant bythol) ymollwng yn y diwedd o dan bwys y gwaith caled, a'r trallodion blin oeddynt wedi gorphwys arno. Y fath gyfaill y profodd Mr. Jones ei hun yn ystod yr amser enbyd hwnw! Cyfaill yn wir oblegyd cyfaill mewn angen. Safodd ef yn ffyddlon wrth ochr y gweinidog a'i braidd oeddynt yn cael eu herlid mor greulawn, ac ar ol marwolaeth Mr. Thomas, safodd wrth ochr ei weddw; amddiffynodd ei *interests* gyda'r holl fedr a allasai ei wybodaeth gyfranu, a'r holl dynerwch teimlad a allasai ei galon ddyfeisio. Yr oedd yn Undodwr a berthynai i'r dosparth *advanced*, ac yr oedd yn ymffrostio yn ei ffydd rydd. Mae yn ddyledus yn benaf i'w weithgarwch a'i gymmhorth sylweddol ef fod capel y Graig, Llandyssul, yn awr yn agored i addoliad yr un Duw diranedig. Cafodd ei agor y diwrnod ar ol ei farwolaeth. Yr oedd ef i gymmeryd rhan flaenllaw yn yr agoriad. Yr oedd ar y ffordd adref y noson hono i gymmeryd rhan dranoeth yn ngwaith y dydd. Ond tranoeth yr oedd wedi huno ei hûn ddiweddaf, a chafodd y capel newydd ei agor wedi ei wisgo mewn du. Yn ffyddlon ac uniawn fel yr oedd Mr. Jones mewn materion crefyddol, yr oedd yn gwbl mor ddidwyll a ffyddlon i egwyddor yn ei olygiadau gwleidyddol. Nid rhywbeth i daro amgylchiadau oedd ei Ryddfrydiaeth, ond yr oedd yn egwyddor ddofn yn ei feddwl, yn argyhoeddiad ei fywyd, a glynodd wrth ei farnau gwleidyddol fel wrth bob peth arall; ymladdodd drostynt; gweithiodd drostynt; parhaodd yn gysson yn ei broffes hyd y diwedd. Cariodd uniondeb ei gymmeriad i'w alwedigaeth; yr oedd yn esiampl o'r cyfreithiwr nas gellir ei lygru; ni welwyd ef erioed yn gwneyd un peth isel a brwnt; yr oedd ei enaid yn ffieiddio â chûs perffaith y dichellion sydd mor gyffredin yn ei alwedigaeth. Yr oedd yn hollol anmhleidiol yn ei ymwneyd â phawb, ac yr oedd ei gymmhwysderau at fusnes yn peru ei fod yn cael ei gydnabod yn yr holl swyddi pwysig a ddaliodd fel y dyn iawn yn y lle iawn. Ac yn awr mae ef wedi myned—bywyd o addewid a defnyddioldeb mawr wedi ei dori ymaith yn ddisymwth. Wrth derfynu adgofiodd y pregethwr y dorf fawr oedd yn bresenol nad oedd bywyd dyn ddim i gael ei fesur wrth ei hyd. Mae yn ymddybynu ar yr hyn ydym ni yn ei osod yn yr amser fel y mae yn pasio heibio. Gwir fywyd yw dyledswydd yn cael ei wneyd yn dda. Efe sydd yn byw y bywyd llawn, yr hwn sydd yn ffyddlon i'w gyfeillion, yn ffyddlon i egwyddor, ac yn ffyddlon i'r ymddiriedaeth y mae Duw wedi ei rhoddi iddo." Mae Mr. Jones wedi gadael ar ei ol weddw a phedwar o blant bychain. Nid yw Mrs. Jones wedi cyflawn wella etto o'r niweidiau, ac y mae archoll yr ymadawiad disymwth yn parhau o hyd yn *fresh*, ond hyderwn trwy gymhorth yr Yspryd Dwyfol fod y cwmmwl tywyll yn dechreu ymranu, i adael ambell i belydr o obaith etto i dywynu ar ei chalon drallodedig.

W. J.

Y BEIBL.

Yn ei Feibl mae'r cywir Gristion
  Gyntaf wedi dechreu byw,
Ac o afael ei elynion
  Cadarn amddiffynfa yw;
Y credadyn pan y teimla
  Yn newynog ato ddel,
A'i wirionedd sydd i bara
  Iddo fel y diliau mêl.

Bu breninoedd yn ei larpio
  Fel bwystfilod yn eu gwanc,
Ac anffyddwyr brwnt yn uno
  Am gael gweled dydd ei dranc;
Ond y gyfrol fendigedig
  Sydd yn gadarn ar ei sedd,
A'i elynion yn siomedig
  Gollir yn y dystaw fedd.

Llwyneinon Isaf.

Dyma drysor wnawn ei anfon
  I anwariaid pella'r byd,
Wnaiff y delwau oll yn deilchion
  Gafodd eu haddoli c'yd;
Daw â'r pagan i weithredu
  Gyda'r estron megys brawd,
Llwyddiant iddo i deyrnasu
  Ar gyfoethog a thylawd.

Holl gyfrolau'r byd a deflir
  I ddyddimdra bob yn ddarn,
Beibl yn unig a agorir
  Yn ngoleuni'r olaf farn;
Wedi'n caiff ei gario'n gyfan
  Gan alluog fyddin gref,
Ac fe 'i dodir ar y llwyfan
  O flaen gorsedd nef y nef.

JAMES HERBERT.

Manion a Banesion.

AWST 4, cynnaliodd Ysgolion Sul Plwyf Aberdar, eu Cylchwyl Flynyddol, Ysgol yr H. D. C. yn eu plith. Cafwyd Cwrdd Llenyddol yn yr H.D.C. yn yr hwyr.

LLWYN.—Traddodwyd pregeth angladdol Mr. John Jones, Gellifaharen, Awst 3, gan y gweinidog, testyn Heb. xi. 4.

CWMBACH.—Mae y Parch. E. W. Lloyd yn parhau yn dra chanolig, er ei fod beth yn well.

CWMBACH.—Cynnaliwyd Cylchwyl Flynyddol yr Ysgol Sul, Awst 21, ar fynydd Cefnpennar. Yr oedd yr hin yn hyfryd.

NID yw fod arall yn draws neu angharuaidd yn un rheswm dros i mi annghofio bod yn foneddigaidd.

FEL hyn y dywedai y diweddar Joseph Barker am ei rieni: "Ni wyddent ddim am dduwinyddiaeth na dim am ddadleuaeth. Eu credo syml oedd fod un Duw, un Crist, un gobaith, un grefydd, un nefoedd. Caru Duw a charu dyn, gochelyd drwg a gwneuthur daioni, myned trwy fywyd gyda dwylaw glân a chalonau pur, gan ymlawenhau yn y gobaith am fendigedigrwydd tragwyddol, oedd yr oll a ofalent am dano. Hyn oedd eu crefydd, eu duwinyddiaeth, eu pob peth." A pha grefydd well a fynwn ni heddyw?

MAE arddangosfa greaduriaid Wombwell wedi ei gwasgar ar ol 80 mlynedd o wasanaeth.

NID yw gweddi yn fater o ffydd gyda mi, ond o wybodaeth a phrofiad beunyddiol. —*Spurgeon.*

YCHWANEGWYD un arall yn ddiweddar at y 237 o blanedau bychain adnabyddus o'r blaen, gan Dr. Knorre, Berlin.

HOLIR gan Ohebydd Penfro yn nghylch Swedenborg (1688—1772), dywed fod un o weinidogion Annybynol y Sir wedi coleddu ei syniadau, ac wedi cyhoeddi llyfr ar y mater.

YR ydym wedi clywed fod D. E. Williams, Ysw., Y.H., Hirwaen, wedi cyhoeddi cyfieithad Cymraeg o un o bregethau Channing, fel math o goffadwriaeth am ei wraig, yr hon oedd, mae'n debyg, yn dra hoff o Channing. Feallai y cawn fanylion pellach erbyn y rhifyn nesaf.

DEALLWN fod gwin y Cymmundeb yn achosi trafferth i rai o aelodau ein heglwysi.

SYNIAD rhyfedd sydd wedi ei goleddu gan rai yw, na ddarfu i'r Iesu erioed chwerthin na gwenu.

Er mwyn tangnofi poen rhwygiad gwenynen neu gacynen, neu unrhyw bryfyn cyffelyb, rhwbier gwynwynsyn yn y clwyf.

Nid yw y Clofer yn hadu yn New Zealand, am nad oes yno ddim gwenyn mawr (humble bees) i ffrwythloni'r blodau. Felly gorfyddir y trigolion i gael gwerth mil o bunnau bob blwyddyn o had newydd o ryw wlad arall.

Yr oedd y gwres yn y Crystal Palas, Awst 11, yn 97½ o raddau, yn York, 87, yn Nhrecynon, Aberdar, 84.

EMYN 117.

He shall, with fearless heart, alone,
Stand firm before the Father's throne,
Whose life is filled with deeds of love,
Whose heart is fixed on things above.

To sinful souls it is not given
To hold a heritage in heaven;
The pure of heart, the clean of hand,
Alone shall dwell within that land.

O Gracious Father! make thou me,
Weak, erring mortal, fit to be
An heir of heaven, there to enjoy
Sweet lasting peace without alloy.

Francis Thomas (Y Crythor Dall), fl. 1760.

"Mae dau beth na ddylent byth fygu, sef simneiau a bechgyn," dyna ddywedodd areithiwr Seisnig yn ddiweddar yn nghlyw plant y gobeithlu; ac ar hyn y mae "*Unity*" Chicago, yn sylwi fel yma; os ydys i sicrhau yr olaf, rhaid i'r tadau fod yn ofalus i beidio cynnu tân ond yn unig yn y simneiau.

Edrycha llawer ar grefydd yn debyg fel yr edrychant ar y frech wen. Dymunant ei gael mor ysgafn ag a fyddo possibl, ac y maent yn ofalus iawn na byddo iddo adael un nod arnynt.—*Methodist.*

Y ffordd i wneuthur y byd yn ddoethach, yn ddysgleiriach, ac yn well, yw i bob un fod yn ddoethach, yn ddysgleiriach, ac yn well ei hunan.

Mae llawer i ddyn cyfoethog nad yw efe ddim gwell o ran ei gyflwr na'i frawd mwyaf llwm. Mae ei frawd heb fwyd i'w stymog, ac yntau heb stymog i'w fwyd.

"Beth wnaeth yr Israeliaid wedi iddynt groesi'r Mor Coch?" ebe athraw yr Ysgol Sul wrth ei ddosparth. "Gosod eu hunain i fyny i sychu," ebe merch fach ar dop ei llais.

Boneddiges: (yn rhoddi afal i blentyn bach) "Rhoddwch yr afal hwn i'r un hono o honom ni ein tair yr ydych yn feddwl sydd bertaf." Edrychodd y bachgen at y tair boneddiges y naill ar ol y llall; wedi hyny, cymmerodd yr afal a——bwytaoedd ef.

Llandyssul.—Dydd Gwener, Awst 15, bu Ysgol Sul Capel y Graig, Llandyssul, yn nghyd a chyfeillion ereill i'r achos ar daith i Aberystwyth. Yr oedd y cwmni i gyd yn rhifo dros gant. Cafwyd diwrnod hyfryd a dymunol dros ben, a darfu i bob un fwynhau ei hun i'r eithaf yn nghanol golygfeydd swynol y dref, ac yn swn murmur y tonau. Dymuniad pawb wrth ddychwelyd oedd cael diwrnod cyffelyb etto yn ystod yr haf nesaf. Mae clod yn ddyledus i Mr. John Evans, Cyfreithiwr, a Mr. D. Lloyd Evans, Meistr Ysgol Pontshan, am wneyd y trefniadau gofynol a gofalu am gyssur y plant ac ereill yn ystod y dydd.

Mae llyfrgell ar bwys cael ei sylfaenu mewn cyssylltiad â Chapel y Graig, er budd, yn fwyaf neillduol, y bobl ieuainc sydd yn perthyn i'r Ysgol Sul ac i'r gynnulleidfa. Yn fuan wedi agoriad y capel traddododd y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, ddarlith ar "Gladstone," o flaen tyrfa luosog yn *Assembly Rooms* y *Porth Hotel*, ac mae cynnyrch y ddarlith hono rywfaint yn rhagor nâ £9, wedi ei neillduo i brynu llyfrau. Cafwyd *grant* o lyfrau i'r un perwyl oddiwrth y Gymdeithas Undodaidd yn Llundain, ac mae genym yn awr 250 o gyfrolau yn Gymraeg a Saesneg i gychwyn. Bydd y llyfrgell yn agored dechreu mis Medi i gymmeryd llyfrau allan o honi ar y telerau gofynol.

Dydd Sul, Awst 17eg, ar ol pregeth gan y gweinidog, Mr. James, gweinyddwyd yr ordinhad o Swper yr Arglwydd am y tro cyntaf mewn cyssylltiad a chynnulleidfa Llandyssul. Yr oedd uwchlaw 50 o gymmunwyr, a dysgwylir y bydd llawer yn ychwanegol y tro nesaf yn mhen mis. Yn yr hwyr pregethodd y Parch. T. Thomas, Pantdefaid, i gynnulleidfa dda iawn, a dywedodd y pregethwr ar ddechreu ei bregeth ei bod yn llon iawn ganddo i weled cymmaint yn nghyd. Mae yr Eglwys yma yn awr mewn cyflwr addawol iawn, a chyda thipyn o wresogrwydd ac ymdrech, nid oes eisieu bod yn broffwyd er gweled y bydd yn un o'r Eglwysi Undodaidd cryfaf yn Sir Aberteifi yn mhen ychydig iawn o flynyddoedd. Ymdrechir yn y dyfodol i gael cyfarfodydd yn y boreu ar ddau Sul o leiaf yn y mis yn ychwanegol at y cyfarfodydd arferol yn yr hwyr.

Mae un lleygwr o'r lle beth bynag wedi addaw rhoddi help llaw, a chyda chymhorth myfyrwyr Caerfyrddin, yr ydys yn gobeithio cael y cynllun i ben.

Marwgofion.

Mai 7ed, o'r ddarfodedigaeth, Joshua Davies, mab y diweddar John Davies, Gof, Felinfach, yn 29ain oed. Yr oedd wedi colli ei iechyd yn Ngweithiau Morganwg. Ar y 12fed, pregethodd y Parch. W. Rees, Rhydygwin, yn y tŷ, ac wedi hyny awd a'r corff i fynwent Ystrad.—T. D. D.

Mehefin 19, Elizabeth Anne, merch fechan Thos. a Margaret Evans, Drovers' Road, Llanbedr, yn 4 mlwydd oed. Gweinyddwyd yn y tŷ ar ddydd ei hangladd gan weinidog Bron Deifi, a chladdwyd y fechan yn mynwent Eglwys y Plwyf.

Mehefin 20, yn ddisymwth ar wely esgor, Margaret Evans, Blaenhowel, Llandyssul, yn 23 oed. Claddwyd hi y dydd Llun canlynol yn Pantdefaid, a phregethodd y Parch. T. T. ar yr achlysur.

Gorphenaf 25, yn 74 ml. oed, Elizabeth Jones, Maesyfelin, Crugyreryr, Llandyssilio gogo. Bu yn gystuddiol am amser maith. Yr 28ain canlynol hebryngwyd hi i'r gladdfa yn Bwlchyfadfa. Pregethodd y Parch. T. T. yn y capel.

Gorph. 25.—Richard Thomas, Bond St., Aberdar, yn 51 oed. Gwasanaethwyd yn yr H. D. C. gan y gweinidog, yr hwn a deimlai hiraeth ar ol hen gyfaill diniwed iawn, ac un y bu yn cydchwareu yn blentyn ag ef. Claddwyd yn y *Cemetery*.

Gorphenaf 27, o'r *Convulsion Fits*, Eleanor Jones, Ystrad House, Llanbedr, yn 47 mlwydd oed. Yr oedd hi yn wael o iechyd er ys amryw flynyddau ac yn waeth o flwyddyn i flwyddyn, nes o'r diwedd i'r babell orfod ymollwng. Yr oedd yn un o deimladau tyner ac o amcanion cywir. Gadawodd briod a chwech o blant, dau lysfab a brawd i alaru ar ei hol. Ac yr oedd eu llwyddiant a'u hawddfyd hwy bob amser yn agos iawn at ei chalon, ac ymdrechodd yn galed drostynt. Gobeithio y bydd cofio am ei hymdrechiadau a'i dymuniadau da yn fendith iddynt yn y dyfodol. Ar ddydd ei hangladd gweinyddwyd yn y tŷ gan weinidog Bron Deifi, a chladdwyd yn mynwent y Plwyf.

Gorphenaf 28, yn 75 oed, Mary Davies, Pontbren, Tregroes, Llandyssul. Claddwyd hi y dydd Mercher canlynol yn nghladdfa Pantdefaid. Pregethodd y Parch. T. T. ar yr achlysur.

Gorphenaf 29, yn 56 oed, Elizabeth Davies, Pantygogle, Llandyssul, a chladdwyd hi y dydd Gwener canlynol, Awst 1, yn Pantdefaid. Pregethwyd yn y tŷ gan y Parch. Mr. Williams, curad y plwyf, a chyflawnodd y Parch. T. T. wasanaeth y gladdedigaeth yn y fynwent.

Gorphenaf 29, yn 63 oed, David Jones, *Tailor*, diweddar o Bantcoch, Llandyssiliogogo. Dygwyd ei gorff gyda'r *train* o Gaerfyrddin y dydd Sadwrn canlynol i orsaf Llandyssul, a chladdwyd ef yn yr hwyr yn Pantdefaid. Pregethwyd ei bregeth angladdol yr ail Sul canlynol, gan y Parch. T. T. yn y capel uchod.

Gorph. 31, o'r ddarfodedigaeth, yn 42 oed, Evan Davies, mab Mary Davies, Gwrthwyntisa. Bu yn wael am yn agos i bum mlynedd. Bu mewn amryw o brif drefydd Lloegr mewn masnachdai sidanau a brethynau. Awst 5, hebryngwyd ef i fynwent plwyf Trefilan, pryd y gweinyddwyd gan y Rheithor.—T. D. D.

Awst 3,—John Simon, Cwmbach, Aberdar, yn 63. O herwydd afiechyd tost Mr. Lloyd, gwasanaethwyd yn yr angladd gan weinidog yr H. D. C. Claddwyd yn y *Cemetery*.

Awst 8, Martha Williams, Esgeringlis, Llanwnen, a ymadawodd â'r fuchedd bresenol yn 45 oed. Yr oedd y chwaer ymadawedig yn aelod o'r gynnulleidfa Undodaidd yn Capelygroes, ac yn ffyddlon dros yr achos tra y bu ei hiechyd yn caniatau. Claddwyd hi yn Llanwnen y dydd Mawrth canlynol, pan y pregethodd y Parch. T. T. yn yr anneddle.

Awst 9, Thomas Thomas, Ffynnonlefrith, Llanwenog, yn 74 oed. Claddwyd ef yr 11eg canlynol yn Capelygroes. Pregethodd y Parch. Jno. Davies ar yr achlysur. Yr oedd yr ymadawedig yn aelod gwresog gyda'r Undodiaid yn y capel uchod.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

AT EIN DERBYNWYR.

Taliadau.—Mrs. H., Bridgend; G.J., Llanbyther; Mrs. W., London; T.J., New Court; W.D., Cribin; T.J., Danffynnon; W.L., Pontypridd; E.P., Glyncorwg; D.G., Ystrad-Rhondda; Rev. W.P., Bridgend; J.L., Dowlais: H.M., Gellionen; Miss J., Cellan; S.E., Frowen; J.E., Nantgwyn; T.D., Dolbwba; T. Ll., Porthcawl; B.B., Treherbert; E.J., Carmarthen; J.J., Tonypandy; W.H., Cefn.

☞ Yr ydym yn ddiolchgar i Mr. B. J. Davies, Barneweld, Wisconsin, U.S.A., am ei erthygl ar "Athrawiaeth yr Ysgrythyrau," ond yn ofni nas gallwn wneuthur un defnydd o honi.

HEN "YMOFYNYDDION."

Mae gan y Golygydd rai cyfrolau y bydd yn dda ganddo eu gwaredu yn rhad iawn. (1847—1865), (1873—1879). Dyma gyfle i lenorion ieuainc ac i gynnulleidfaoedd i gyflenwi llyfrgelloedd yr Ysgolion Sul. Peidier oedi. Swllt a grot y gyfrol yn rhad trwy y *post*.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Ivy Cottage,
ABERDARE.

Y CYFARFODYDD CHWARTEROL.

Cynnelir y nesaf o'r uchod yn y Wig, ar ddydd iau Mercher ac Iau, Hydref 1af a'r 2il. Boreu dydd Iau, pregethir yn Saesneg gan y Parch. Dr. Vance Smith, ac yn Gymraeg, gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca. Pwnc y Gynnadledd fydd, "Dyben Eglwys a'r ffordd oreu i sicrhau y dyben hwnw;" darllenir papyr arno gan y Parch. R. C. Jones, Llanbedr. Gobeithir y bydd i'r oll o'r gweinidogion roddi eu presenoldeb.

W. P.

CAPEL Y GRAIG, LLANDYSSUL.

Cydnabyddwyd eisioes, £726 1s. 1d. Cyfaill, £1 1s.; W. Phillips, Castell Mawr, Llanwinio, 10s.; Jas. Rees, Cilgryman, 5s.; M. Evans, Tanyrhendy, 10s.; Jas. Evans, do., 2s. 6d.; Sam. Evans, Frowen, 2s. 6d.; E. Jones, Rhydyparc, 3s.; R. Rees, Duffryn, 2s. 6d.; Mrs. Phillips, Blaentrafle, 10s.; Casgliad yn Rhydyparc, 12s. 7d.; T. Davies, Ffynnonlas, Llanarth, 2s. 6d.; J. Thomas, Pantglas, 5s.: D. Thomas, Rhydwen, 2s. 6d.; Cyfaill, 5s.; D. Jones, Gwardafolog, 2s. 6d.; Mrs. Jones, do., 2s. 6d.; A. Thomas, Penpistyll, 2s. 6d.; J. Thomas, Crugyreryr Factory, 10s.; Mrs. Davies, Crugyreryr Isaf, 2s. 6d.; J. Williams, Llawrcwrt, 10s.; T. Thomas, Rhydwen, 2s. 6d.; J. Thomas, Talgareg Mill, 2s. 6d.; Miss Thomas, do., 2s. 6d.; John Jones, Rhydsais, 5s.; Mrs. Jones, do., 5s.; J. Thomas, Pantybryn, 5s.; Mrs. Davies, Pantscawen, 5s.; W. Davies, do., 5s.; R. Thomas, Bwlchybryn, 2s. 6d.; J. Rees, Junr., Cilgwynbach, 10s.; Messrs. Thomas, Bristol, £10; Mrs. Rhys, Ysguborfawr, Penderyn, 10s.; Mrs. Davies, Wern Cottage, Cellan, 10s.; Rev. J. Williams, Panteg, 3s. 6d.; D. Thomas, Fadfa, £1 1s.; Mrs. Jones, Llechwedd, Llanwenog, 10s.; Casgliad ar ddiwedd y Cyfarfod boreu dydd Gwener, Gorph. 4, £6 12s. 2d.; Mrs. Morgans, Dolwlff (yn ychwanegol), 3s 6d.; B. Jones, Coal Merchant, Llandyssul, 10.; D. Jones, Rock, Llandyssul, 2s. 6d.; Messrs. John Shute & Co., Bristol, £1 1s. Symiau bychain, 4s.

O.Y.—Mae oddeutu £15 o'r addewidion heb eu talu. Erfyniwn yn daer am eu cael yn ddioedi fel y byddom yn alluog i argraffu y *Balance Sheet* ar amlen y Rhifyn nesaf.

W. JAMES, Ysgrifenydd.